

Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol Crynodeb o'r Hunanasesiad 2022-23



Mae'r ddogfen yma'n cynnwys gwybodaeth am gynllunio a chynnydd blaenoriaethau'r Cyngor sef amcanion Lles y Cyngor fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a hefyd Hunanasesiad cryno'r Cyngor fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Tudalen

CYNNWYS

Cyflwyniad	3
Yr Hunanasesiad	4
1. Themâu ar gyfer Gwella sy'n deillio o'n Hunanasesiad 2021/22	7
2. Cynnydd ar ein Cynllun Corfforaethol 2020-24	15
• Pobl	17
• Lleoedd	19
• Ffyniant	21
3. Sut aethon ni ati i gyflawni ein Blaenoriaethau yn ystod 2022/23	25
• Pobl	27
• Lleoedd	29
• Ffyniant	33
4. Ein Hasesiad o Swyddogaethau Corfforaethol	37
5. Yr Hunanwerthusiad o'n Gwasanaethau	42
6. Sut rydyn ni'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol	46
Atodiad A: Cyfrannu at y Nodau Lles	49



Cyflwyniad

Dyma ail flwyddyn ein Hadroddiad Cyflawniad Corfforaethol ar ei newydd wedd, sydd hefyd yn rhoi crynodeb o'n Hunanasesiad ar gyfer 2022/23, ac sy'n gweithredu fel arwyddbost at yr wybodaeth newydd a phresennol rydyn ni wedi'i defnyddio i barhau i adolygu ein cyflawniad.

2022/23 yw'r flwyddyn gyntaf ers 2019/20 pan nad oedd angen i'n cynlluniau gynnwys ymateb uniongyrchol i bandemig COVID-19, er y bydd ein gwaith i fynd i'r afael â'i gymynroddion yn parhau am flynyddoedd i ddod. Eleni, mae gyda ni'r fantais o wersi a ddysgwyd o'n [hasesiad cyntaf](#) a ystyriwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio [ym mis Rhagfyr 2022](#) a chan Gyngor yn [Ionawr 2023](#). Rydyn ni hefyd wedi gweld ac ystyried yr wybodaeth a rennir sy'n dod i'r amlwg gan Gyngorau eraill Cymru ac adborth gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Rheoleiddwyr Annibynnol y Cyngor, Archwilio Cymru. O ganlyniad i'r cyd-destun datblygol yma a gwybodaeth ychwanegol, ymhlith pethau eraill fe welwch ragor o ganolbwynt ar effaith ein gwaith a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn benodol. Byddwch chi hefyd yn gweld [Adran Diogelu](#) newydd o fewn yr asesiad o'n Swyddogaethau Corfforaethol a'r newyddion diweddaraf o ran y cynnydd yn y naw thema allweddol a nodwyd gennym o'n Hasesiad cyntaf.

Serch hynny, un o'r egwyddorion sy'n parhau i fod ar waith yn yr Asesiad yma yw gwneud y defnydd gorau o'r llw o wybodaeth sydd eisoes ar gael yn eang yn adroddiadau, polisïau, cynlluniau a strategaethau'r Cyngor i leihau'r beichiau adrodd cyn belled ag y bo modd, fel bod yr Asesiad yn bodloni anghenion y Cyngor a gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan gynnwys adrodd ar gyflawniad ac i ba raddau y mae'r Cyngor yn:

1. arfer ei swyddogaethau'n effeithiol;
2. defnyddio ei adnoddau mewn modd economaidd, effeithlon ac effeithiol;
3. y mae ei lywodraethiant yn effeithiol er mwyn sicrhau'r uchod.

Os oes gyda chi unrhyw sylwadau neu farn am ein Hadroddiad Cyflawniad Corfforaethol a'r Hunanasesiad y mae'n ei gynnwys, neu os hoffech chi ragor o wybodaeth, cysylltwch â Lesley Lawson, Rheolwr Cyflawniad.

Cyflwyniad

Dyma ail flwyddyn ein Hadroddiad Cyflawniad Corfforaethol ar ei newydd wedd, sydd hefyd yn rhoi crynodeb o'n Hunanasesiad ar gyfer 2022/23, ac sy'n gweithredu fel arwyddbost at yr wybodaeth newydd a phresennol rydyn ni wedi'i defnyddio i barhau i adolygu ein cyflawniad.

2022/23 yw'r flwyddyn gyntaf ers 2019/20 pan nad oedd angen i'n cynlluniau gynnwys ymateb uniongyrchol i bandemig COVID-19, er y bydd ein gwaith i fynd i'r afael â'i ôl yn parhau am flynyddoedd i ddod. Eleni, mae gyda ni'r fantais o wersi a ddysgwyd o'n [hasesiad cyntaf](#) a ystyriwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio [ym mis Rhagfyr 2022](#) a chan y Cyngor yn [Ionawr 2023](#). Rydyn ni hefyd wedi gweld ac ystyried yr wybodaeth a rennir sy'n dod i'r amlwg gan Gyngorau eraill Cymru ac adborth gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Rheoleiddwyr Annibynnol y Cyngor, Archwilio Cymru. O ganlyniad i'r cyd-destun datblygol yma a gwybodaeth ychwanegol, ymhlith pethau eraill fe welwch ragor o ganolbwynt ar effaith ein gwaith a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn benodol. Byddwch chi hefyd yn gweld [Adran Diogelu](#) newydd o fewn yr asesiad o'n Swyddogaethau Corfforaethol a'r newyddion diweddaraf o ran y cynnydd yn y naw thema allweddol a nodwyd gennym o'n Hasesiad cyntaf.

Serch hynny, un o'r egwyddorion sy'n parhau i fod ar waith yn yr Asesiad yma yw gwneud y defnydd gorau o'r holl wybodaeth sydd eisoes ar gael yn eang yn adroddiadau, polisïau, cynlluniau a strategaethau'r Cyngor i leihau'r beichiau adrodd cyn belled ag y bo modd, fel bod yr Asesiad yn bodloni anghenion y Cyngor a gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan gynnwys adrodd ar gyflawniad ac i ba raddau y mae'r Cyngor yn:

4. arfer ei swyddogaethau'n effeithiol;
5. defnyddio ei adnoddau mewn modd economaidd, effeithlon ac effeithiol;
6. y mae ei lywodraethiant yn effeithiol er mwyn sicrhau'r uchod.

Os oes gyda chi unrhyw sylwadau neu farn am ein Hadroddiad Cyflawniad Corfforaethol a'r Hunanasesiad y mae'n ei gynnwys, neu os hoffech chi ragor o wybodaeth, cysylltwch â Lesley Lawson, Rheolwr Cyflawniad.

Yr Hunanasesiad

Rhoddodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ystod eang o ddyletswyddau statudol newydd ar waith. Mae'r dyletswyddau sy'n cael eu hamlinellu yn Perfformiad a Llywodraethu [Rhan 6, Pennod 1 o'r Ddeddf](#) yn ymwneud â chryfhau a grymuso llywodraeth leol...*"[gan d]diffinio prif gynghorau'n bendant fel sefydliadau sy'n gwella eu hunain drwy system sy'n seiliedig ar hunanasesu ac ar asesiadau o berfformiad gan baneli"*. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Gyrff Cyhoeddus wneud y pethau canlynol:

- parhau i adolygu cyflawniad,
- ymgynghori ar gyflawniad ac
- adrodd ar gyflawniad, gan baratoi adroddiad hunanasesu ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Mae gyda ni hanes cryf o adolygu ein cyflawniad trwy drefniadau monitro, cefnogi a herio sydd wedi'u hen sefydlu ar draws pob lefel o'r Cyngor gan arwain at ddiwylliant cyflawniad cadarnhaol ble mae'r sefydliad cyfan yn ymdrechu'n barhaus am ragoriaeth. Mae gyda ni hefyd raglenni eang o weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu â phreswylwyr, staff a rhanddeiliaid sy'n helpu i lywio a llunio ein gwaith a gosod ein blaenoriaethau.

Mae'r 'catalog' llawn o'r wybodaeth sydd ar gael i ddangos sut rydyn ni'n parhau i adolygu ein cyflawniad wedi'i gynnwys yn y chwe maes a ddisgrifir yn yr Hunanasesiad yma h.y.

1. ymateb i'r naw Thema Gwella sy'n deillio o Asesiad 2021/22.
2. cyflawni'r blaenoriaethau ar draws oes ein Cynllun Corfforaethol 'Gwneud Gwahaniaeth' ers iddo gael ei lansio yn 2020, a oedd yn cyd-daro â dechrau pandemig byd-eang heb ei debyg, pan wnaethon ni barhau i gyflawni ein blaenoriaethau, gan ddarparu sylfaen gadarn i adeiladu a chyflymu cynnydd yn dilyn adferiad.
3. ein cynnydd wrth gyflawni ein Blaenoriaethau yn ystod 2022/23, - gan ddefnyddio ystod eang o wybodaeth sydd eisoes ar gael i drigolion, cymunedau a'n rhanddeiliaid trwy ein Hadroddiadau Cyflawniad ac Adnoddau chwarterol ffurfiol i Bwyllgorau'r Cabinet a'r Cyngor ac amrywiol sianeli Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor.
4. asesiad o swyddogaethau corfforaethol – gan gynnwys sut rydyn ni'n cyflawni'r Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol
5. yr Hunanwerthusiad o'n pum maes gwasanaeth ar hugain.
6. Ein defnydd o'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a gwybodaeth sy'n dangos sut rydyn ni'n rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar waith.

Mae'r wybodaeth a ystyrir yn y chwe maes sy'n rhan o'n Hunanasesiad flynyddol yn arwain at filoedd o dudalennau, yn ogystal â channoedd o ddogfennau, polisïau, strategaethau a chynlluniau sydd â dolenni cyswllt, sy'n darparu tystiolaeth a data ategol manylach. Mae detholiad ohonyn nhw [yma](#). Mae'r 'catalog' yma'n cynnwys diweddariadau yn yr adroddiadau Cyflawniad ac Adnoddau chwarterol i'r [Cabinet](#), adroddiadau annibynnol sy'n rhan o raglen waith y Cabinet a'i is-bwyllgorau a grwpiau llywio; adroddiadau craffu a chyn craffu; ystyriaethau'r [Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio](#); gwella a gwahanol fyrdau partneriaeth rhanbarthol yn ogystal â chydbwyllgorau. Mae llawer o'r wybodaeth yma wedi'i hystyried ac wedi bod ar gael i'r cyhoedd ers hyd at ddeunaw mis. Oherwydd hyn, dydy hi ddim yn amserol, nac o werth ychwanegol sylweddol i'r darlennydd i atgynhyrchu manylion yr asesiadau yma. Serch hynny, trwy ddarparu crynodebau ac arwyddbyst lefel uchel, mae modd i ni

ddangos ein hymagwedd agored ac eglur a rhoi mynediad i'r darllenydd sy'n chwilio am ragor o fanylion at yr wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw.

Mae gan y Cyngor yma hanes da o adolygu cyflawniad ynghyd â monitro cyflawniad cadarn a rheolaidd gan yr Uwch Dîm Arwain ac Aelodau etholedig. Mae ganddo hefyd brosesau hunanasesu sydd wedi'u hen sefydlu ar lefelau gwasanaeth a chorfforaethol fel y nodir yn ein [Fframwaith Rheoli Cyflawniad](#). Mae hyn yn golygu ein bod ni'n gallu cefnogi a herio gwasanaethau a'r meysydd cymorth corfforaethol i wella'n barhaus a gosod blaenoriaethau gwasanaeth priodol ar gyfer cyflawni a chynllunio â blaenoriaeth, i'w hystyried, eu monitro a'u craffu gan Aelodau etholedig yng nghyfarfodydd y Cabinet, y Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgorau Archwilio a'r Cyngor. Mae ein dull o ymateb i adroddiadau rheoleiddwyr yn agored ac yn eglur ac mae adroddiadau a ystyriwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Craffu [yma](#).

Rydyn ni'n parhau i fabwysiadu dull pragmatig at ein Hunanasesiad, tra'n bodloni gofynion adrodd y [Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau \(Cymru\)](#) ac ar yr un pryd achub ar y cyfle i gryfhau ymhellach sut rydyn ni'n bodloni gofynion adrodd presennol i leihau beichiau adrodd a gwneud y defnydd gorau o ffrydiau adrodd presennol a chanolbwyntio ar wella gwasanaethau er budd ein trigolion, cymunedau a busnesau.

Mae gwelliant parhaus yn cael ei ysgogi gan arweinyddiaeth gref â ffocws gan yr Arweinydd ac aelodau'r Cabinet. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n ymgysylltu â phobl a chymunedau wrth i ni baratoi ein Cynllun Corfforaethol newydd, a fydd yn nodi ein cynlluniau a'n huchelgeisiau y tu hwnt i 2024, ar yr un pryd ag y mae Llywodraeth Leol yn wynebu heriau ariannol enfawr.

Mae arweinyddiaeth wleidyddol y Cyngor wedi bod yn sefydlog ers nifer o flynyddoedd ac yn parhau i fod yn gyson yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol 2022.

Cydnabuwyd sefydlogrwydd a chryfder yr arweinyddiaeth gan staff mewn arolwg staff a ystyriwyd gan Uwch Reolwyr y Cyngor ym mis Tachwedd 2023. O'r staff a ymatebodd,

- Roedd 65% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf (*i lawr o 75%*)fod Rhondda Cynon Taf yn Gyngor cryf sy'n arwain y ffordd mewn llawer o wasanaethau.
- Doedd 27% ddim yn cytuno nac yn anghytuno (*i fyny o 19%*).
- 7% (*i fyny o 5%*) yn gyfan gwbl, naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Er nad ydyn ni'n hunanfodlon, mae'r canfyddiadau yma'n parhau i roi rhywfaint o sicrwydd bod staff cydnabod arweinyddiaeth gref ar draws ei Reolwyr ac Aelodau. Caiff hyn ei brofi ymhellach wrth i'r Cyngor fynd i'r afael â'r heriau ariannol sydd o'i flaen a byddwn ni'n parhau i ddatblygu a darparu'r arweinyddiaeth gref a gweladwy yma.



Themâu ar gyfer Gwella sy'n deillio o'n Hunanasesiad 2021/22

ADRAN 1

Themâu ar gyfer Gwella sy'n deillio o'n Hunanasesiad 2021/22

Ers 2016, mae trefniadau hunanasesu'r Cyngor wedi darparu sylfaen gadarn ar gyfer nodi ein cryfderau a'n meysydd i'w gwella ar draws gwasanaethau ac yn ehangach o safbwynt corfforaethol. Yn 2021/22, nodwyd naw thema glir fel y rhai y mae'n rhaid i'r Cyngor fynd i'r afael â nhw, a ddaeth i'r amlwg o wahanol elfennau'r Hunanasesiad. Mae'r holl themâu yma wedi'u nodi fel Risgiau Strategol yn y [Gofrestr Risg Strategol](#) gyda rheolaethau a chatau gweithredu yn cael eu monitro gan y Cabinet. Maen nhw hefyd wedi'u cynnwys yn ein cynlluniau gwaith o fewn y Cyngor a chyda'n partneriaid lle bo'n briodol. Mae'r themâu yma'n hanesyddol gymhleth, cysylltiedig ac yn faterion 'drygionus' sydd wedi'u gwaethgu i raddau helaeth gan amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth neu ein dylanwad.

1. **Cynllunio Ariannol a Chydnerthedd**
2. **Cynllunio'r Gweithlu**
3. **Argyfwng costau byw**
4. **Gwneud Rhondda Cynon Taf yn Gydnerth i heriau Newid yn yr Hinsawdd**
5. **Cau'r bwlch Cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion sy'n byw mewn tldi**
6. **Presenoldeb yn yr ysgol:**
7. **Moderneiddio ac integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a thrawsnewid gwasanaethau preswyl y Cyngor i blant.**
8. **Parhau i adfywio canol trefi a chefnogi busnesau lleol.**
9. **Cefnogi'r rhai sydd angen tai.**

Gweler isod grynodeb o gynnydd yn erbyn pob thema.

Thema ar gyfer Gwella	Y Newyddion Diweddaraf ar Gynnydd
Cynllunio Ariannol a Chydnerthedd Rheoli ein ffordd drwy'r heriau ariannol sylweddol presennol ac yn y dyfodol, sy'n cynnwys effeithiau parhaus y pandemig a'r argyfwng costau byw. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor a'i bartneriaid blaenoriaethu gwasanaethau a gwneud penderfyniadau	Rydyn ni'n parhau i weithredu o fewn amgylchedd heriol a newidiol, gan gynnal y ffocws ar ddarparu gwasanaethau rheng flaen yn unol â Blaenoriaethau Corfforaethol i helpu i gefnogi anghenion trigolion a busnesau. Mae gwerthusiad o'n cynnydd wedi'i gynnwys yn adran Cynllunio Ariannol, Cyflawniad a Rheoli Risg ein hasesiad o swyddogaethau corfforaethol (Gweler Adran 4). Mae trefniadau cynllunio a rheoli ariannol y Cyngor wedi galluogi'r canlynol yn gyson: gosod cyllidebau cytbwys; gwasanaethau'n cael eu darparu yn unol â lefel gyffredinol yr adnoddau sydd ar gael; rhagolygon cywir o wariant a lefelau incwm dros y tymor canolig i lywio cynllunio gwasanaethau yn y dyfodol; a buddsoddiad sylweddol parhaus ym meysydd blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol.

Thema ar gyfer Gwella	Y Newyddion Diweddaraf ar Gynnydd
anodd o ran darparu gwasanaethau.	Mae'r trefniadau yma wedi bod yn allweddol i gefnogi sefydlogrwydd a chydnerthedd ariannol parhaus y Cyngor yn ystod cyfnod heb ei debyg o alw cynyddol am wasanaethau a chynnydd chwyddiant, sydd ill dau wedi arwain at bwysau cost sylweddol ymhell uwchlaw lefelau cyllid craidd. Rhagwelir y bydd y sefyllfa yma'n parhau dros y tymor canolig. Mae'r deilliannau a'r canlyniadau canlynol yn dangos cadernid ac effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith: • Y gallu i reoli pwysau cost sylweddol yn ystod y flwyddyn, y tu hwnt i'r lefelau a gyllidebwyd ac a yrrir yn bennaf gan amodau economaidd y DU gyfan wrth i'r wlad ymadfer ar ôl cyfnod y pandemig ac effeithiau parhaus yr argyfwng costau byw. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 mae'r Cyngor wedi: ○ Rheoli pwysau gwerth £21 miliwn yn ystod y flwyddyn drwy fesurau lleihau cyllideb y sefydliad cyfan a defnyddio cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, gyda chyfanswm gorwariant o £52,000 ar ddiwedd y flwyddyn (amrywiad o 0.01% o gymharu â chyfanswm Cyllideb Refeniw o £567 miliwn); a ○ Balansau Wrth Gefn Cyffredinol gwerth £10.2 miliwn ar 31 Mawrth 2023, mae hyn yn unol â'r lefel ofynnol o £10 miliwn, fel y pennwyd gan Swyddog Adran 151 y Cyngor. • Barn archwilio ddiamod ar Ddatganiad Cyfrifon 2022/23 y Cyngor (h.y bil iechyd glân). • Cynllunio ariannol tymor canolig a ragwelodd ymhell cyn blwyddyn ariannol 2023/24 faint o fwlch yn y gyllideb sy'n wynebu'r Cyngor, h.y. £38 miliwn, y bwlch cyllidebol mwyaf y mae erioed wedi'i wynebu. Darparodd y trefniadau ffocws ar gyfer rhaglen waith ar gyfer y Cyngor cyfan, y tu hwnt i'r trefniadau arferol ar gyfer cynllunio a rheoli'r gyllideb, i gynnig a chyflawni amrywiaeth o fesurau lleihau'r gyllideb, yr oedd angen i'r Cabinet eu hystyried/cymeradwyo ar gyfer rhai ohonyn nhw yn dilyn cyfnod o ymgynghori cyhoeddus. Yn bwysig, roedd cadernid y dull yn galluogi'r rhan fwyaf o'r arbedion i gael eu cyflawni heb effeithio'n sylweddol ar wasanaethau rheng flaen. • Buddsoddiad sylweddol a pharhaus yn asedau a seilwaith y Cyngor, drwy'r Rhaglen Gyfalaf: £135 miliwn ar gyfer 2022/23 a'r 6^{ed} flwyddyn yn olynol i fuddsoddiad rhaglen gyfalaf fod yn fwy na £100 miliwn y flwyddyn, gan wneud gwelliannau gweladwy ar draws y Fwrdeistref Sirol. Ym mis Medi 2023, adnewyddodd a chyhoeddodd y Cyngor Gynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i ddiweddarau ar gyfer y cyfnod 2023/24 hyd at 2026/27. Mae'r diweddariad yn rhagweld bwlch yn y gyllideb o £35 miliwn ar gyfer 2024/25, gan godi i £85 miliwn hyd at 2026/27; mae'r sefyllfa yma wedi'i gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynnal adolygiadau manwl unwaith eto ar draws yr holl feysydd gwasanaeth, yn ychwanegol at y trefniadau arferol, i nodi mesurau lleihau cyllideb i gau'r bwlch, gyda'r nod o gynnig arbedion cyllidebol nad ydyn nhw'n cael effaith sylweddol ar y darparu gwasanaethau rheng flaen a sicrhau bod y Cyngor yn parhau i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol. Mae'r

Thema ar gyfer Gwella	Y Newyddion Diweddaraf ar Gynnydd
	gwaith yma'n mynd rhagddo ar hyn o bryd yn rhan o baratodau ar gyfer pennu cyllideb 2024/25, ac mae cynigion i leihau'r gyllideb a diweddariadau ar y datganiad sefyllfa o gynnydd wedi'u hadrodd i'r Cabinet ar 23 Hydref 2023 a 20 Tachwedd 2023, gyda chytundeb yn cael ei ddarparu i'r rhain symud ymlaen i'r cam nesaf lle bo angen, er enghraifft, symud ymlaen i ymgynghoriad cyhoeddus. Gweler hefyd Risq Strategol 1
Cynllunio'r Gweithlu Recriwtio a chadw'r staff gorau a sicrhau bod gan wasanaethau allweddol, megis gofal cymdeithasol, yr hyblygrwydd staffio i ymateb i alw cynyddol am wasanaethau.	Caiff Cynllunio'r Gweithlu ei gydnabod fel blaenoriaeth uchel ar draws pob maes gwasanaeth. Roedd gan y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant drosiant staff o 15.94% yn 2022/23 o gymharu â 12.70% yn 2021/22. Er nad oedd yr holl drosiant yma i'w briodoli'n uniongyrchol i ofal cymdeithasol, mae cydnabyddiaeth o'r heriau y mae'r gwasanaethau yma'n eu hwynebu, yn enwedig recriwtio a chadw. Mae'r gwasanaethau'n ymateb yn gadarnhaol. Gwasanaethau i Blant, gyda Chynllun Gweithlu Gwasanaethau i Blant pwrpasol newydd a threfniadau tebyg yn cael eu datblygu yn y Gwasanaethau i Oedolion. Yn ehangach, ym mis Ionawr 2023, Cymeradwyodd y Cabinet Strategaeth Adnoddau Dynol newydd 2023-28 a Chynllun Gweithlu'r Cyngor 2023-28. Roedd y Cynllun Gweithlu newydd hefyd yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a'r argymhellion a ddeilliodd o adolygiad Llamu Ymlaen (Springing Forward) o Weithlu'r Cyngor gan Archwilio Cymru a adroddwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi 2022. Mae gwerthusiad o'n cynnydd wedi'i gynnwys yn adran Adnoddau Dynol/Cynllunio'r Gweithlu ein hasesiad o swyddogaethau corfforaethol (Gweler Adran 4). Gweler hefyd Risq Strategol 18
Argyfwng costau byw Gan weithio gyda phartneriaid, mae'r Cyngor yn darparu ystod eang o wasanaethau a chymorth wedi'u targedu at blant a'u teuluoedd yn ogystal ag unigolion sy'n byw mewn tldi. Serch hynny, yn dilyn y pandemig, mae angen inni wella'r ffordd rydyn ni'n ymgysylltu â	Mae ymrwymiad cryf y Cyngor a'r camau i fynd i'r afael â thlodi wedi'u gwau drwy'r Cynllun Corfforaethol presennol – Gwneud Gwahaniaeth. Cyfeiriwyd at hyn yn yr adroddiad ar ganfyddiadau a ddeilliodd o Arolygiad Estyn, ym mis Mawrth 2023 ac a ystyriwyd yn fwyaf diweddar gan y Pwyllgor Craffu Addysg a Chynhwysiant ar 20 Mehefin 2023. Rydyn ni'n parhau i ddatblygu ein dull o gefnogi pobl a theuluoedd sy'n byw mewn tldi. Mae ystod eang o wasanaethau a chymorth ariannol wedi'u darparu i bobl a theuluoedd mewn angen. Er nad yw'n hollgynhwysfawr, mae'r rhestr isod yn rhoi trosolwg o'r ffyrdd y mae'r Cyngor yn cefnogi trigolion yn uniongyrchol a thrwy ddangos y ffordd at wybodaeth i sefydliadau partner a chymunedol. Mae modd dod o hyd i ragor o fanylion yn Adroddiad Cyflawniad Chwarter 4.

Thema ar gyfer Gwella	Y Newyddion Diweddaraf ar Gynnydd
theuluoedd i'w gwneud yn effro i ehangder y gwasanaethau sydd ar gael a sut y gallan nhw gael mynediad atyn nhw.	1. Mynediad at wybodaeth a chyngor trwy dudalen we'r 'Cymorth Costau Byw'. 2. Cefnogaeth gyda Thlodi Bwyd: wedi'i gynnwys gydag Adroddiad Cydnerthedd Bwyd i'r Cabinet ym mis Mehefin 2022 3. Cefnogaeth gyda Thlodi Tanwydd: Canolfannau Croeso yn y Gaeaf 4. Cefnogaeth i deuluoedd a phlant trwy'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth; Gofal Plant am ddim Llywodraeth Cymru; Cinio Ysgol am Ddim Cyffredinol; Grant Cymorth Costau Byw ac Urddas Mislif yn y Gymuned Serch hynny, rydyn ni'n cydnabod efallai nad yw'r trigolion sydd fwyaf angen ein cymorth yn y sefyllfa orau i gael gwybodaeth am y gwahanol fathau o gymorth sydd ar gael ac mae angen i ni wneud rhagor i sicrhau dull 'cydgysylltiedig'. Mae'r Cyngor wedi defnyddio adroddiad cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol 'Amser am Newid – Tlodi yng Nghymru' cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2022, i'n helpu i adolygu a herio ein hymagwedd. Cyflwynwyd ein hymateb i'r adroddiad cenedlaethol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi 2023 gan nodi ein hymagwedd leol a'n meysydd arfaethedig i'w gwella. Mae hyn yn cynnwys cryfhau ein dulliau strategol, a fydd yn cael eu datblygu yn unol â datblygiad y Cynllun Corfforaethol newydd. Mae'r ymateb hefyd yn nodi ein dull o ystyried Strategaeth Tlodi Plant yn dilyn Rhybudd o Gynnig gan y Cyngor ym mis Mawrth 2023. Gweler hefyd Risq Strategol 13
Gwneud Rhondda Cynon Taf yn Gydnerth i heriau Newid yn yr Hinsawdd Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a busnesau a chymunedau lleol, mae angen inni barhau i liniaru effaith newid yn yr hinsawdd lle bynnag y bo modd. Mae hyn yn cynnwys parhau i adnewyddu/atgyweirio'r seilwaith a gafodd ei ddifrodi gan Storm Dennis, mynd i'r afael â diogelwch tomennydd, uwchraddio'r seilwaith dŵr llifogydd a chefnogi	Cafodd Strategaeth Mynd i'r Afael â Newid yn yr Hinsawdd 2022–25 y Cyngor ei gytuno gan y Cabinet ym mis Mehefin 2022 ac mae'n adlewyrchu'r Blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor wrth i ni geisio ymgorffori ein hymateb i newid yn yr hinsawdd ym mhob gwasanaeth. Ym mis Mawrth 2023, cymeradwyodd Is-bwyllgor y Cabinet ar Strategaeth Datgarboneiddio Newid yn yr Hinsawdd a chynllun gweithredu sy'n darparu llwybr clir i alluogi Rhondda Cynon Taf i ddod yn Gyngor carbon niwtral. Mae cynnydd o ran cyflawni ein strategaeth a gweithio tuag at ein targedau i fod yn Gyngor a Bwrdeistref Sirol carbon niwtral yn cael ei fonitro drwy Adroddiadau Cyflawniad Chwarterol y Cyngor i'r Cabinet, diweddariadau i Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion Newid yn yr Hinsawdd ac adroddiadau prosiect penodol i'r Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu. Mae modd dod o hyd i'r newyddion diweddaraf ar ein cynnydd yn 2022/23 yn Adran 7 o'r . Mae cynlluniau manwl ar waith i barhau i gyflawni yn 2023/24. Gweler hefyd Risq Strategol 24 Ymhellach, mae'r argymhellion a ddeilliodd o ymateb y Cyngor i ddigwyddiadau tywydd eithafol y cytunwyd arnyn nhw ym mis Rhagfyr 2020

Thema ar gyfer Gwella	Y Newyddion Diweddaraf ar Gynnydd
trigolion a busnesau i roi eu mesurau lliniaru ac addasu ar waith. Bydd y Cyngor hefyd yn ceisio lleihau ei ôl troed carbon ei hun a dod yn garbon niwtral erbyn 2030.	bellach wedi'u cwblhau a/neu wedi'u cynnwys mewn darpariaeth gwasanaeth barhaus a chynllunio blaenoriaeth fel y bo'n briodol. Mae modd dod o hyd i'r newyddion diweddaraf ar gynnydd 2022/23 yn Adran 6 Adroddiad Cyflawniad Chwarter 4 i'r Cabinet. Mae diweddariad manwl 2022/23 hefyd ar gael yma. Gweler hefyd Risq Strategol 26
Cau'r bwlch Cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion sy'n byw mewn tldi Gwella cyflawniad disgyblion a chau'r bwlch cyrhaeddiad, sydd wedi ehangu yn ystod y pandemig.	Mae Cydraddoldeb mewn Addysg yn ganolog i'r Cynllun Strategol Addysg 2022 - 2025, sy'n nodi'r Weledigaeth ar gyfer Addysg yn Rhondda Cynon Taf. Rydyn ni'n parhau i weithio gyda Chonsortium Canolbarth y De i adolygu cynnydd pob ysgol, gan ddarparu cymorth a her. Rydyn ni hefyd yn cydnabod bod angen i'r amodau angenrheidiol fod ar waith i alluogi dysgu a darparu cymorth ar gyfer cyfranogiad ac ymgysylltiad disgyblion yn yr ysgol a chymorth cyfannol i deuluoedd. Gweler 'argyfwng costau byw' uchod. Mae manylion ein cynnydd wedi'u nodi ym Mlaenoriaeth Ffyniant yr Adroddiad Cyflawniad Chwarter 4. Mae pandemig COVID-19 a newidiadau i ddata cenedlaethol wedi'i gwneud hi'n anodd darparu gwerthusiad llawn o ddeilliannau disgyblion ar lefel awdurdod lleol. Ar gyfer 2021/22 does dim unrhyw fesurau cyflawniad ar gael i'r cyhoedd ar lefel ysgol, awdurdod lleol na chonsortia rhanbarthol y mae modd eu cynnwys yn yr adroddiad yma. Mae hyn wedi bod yn wir am y ddwy flynedd flaenorol. Serch hynny, mae data lefel ysgol yn ganolbwynt allweddol mewn trafodaethau gydag arweinwyr ysgol i alluogi cymorth a her briodol. Yn Arolygiad Estyn o'r Gwasanaethau Addysg ym mis Ionawr 2023, dywedodd yr adroddiad fod yr awdurdod lleol <i>'yn rhoi blaenoriaeth uchel i gefnogi ei blant a phobl ifainc fwyaf bregus i wella eu deilliannau, eu lles a'u cyfleoedd bywyd, ac mae'n cynnig cymorth defnyddiol i ysgolion wella presenoldeb ac ymddygiad y disgyblion yma'</i>. Dywedodd hefyd fod <i>'cynigion trefniadaeth ysgolion yn rhoi ystyriaeth dda i anghenion cymuned yr ysgol ac yn hyrwyddo darpariaeth deg i ddisgyblion'</i>. Serch hynny, nododd yr adroddiad hefyd fod presenoldeb y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi parhau'n wael ac argymhellodd ar barhau i ganolbwyntio i wella presenoldeb, yn enwedig ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed (gweler isod). Gweler hefyd Risq Strategol 28
Presenoldeb yn yr Ysgol Gwella presenoldeb disgyblion i'r lefel cyn y pandemig o leiaf, ac yn arbennig y plant hynny sy'n byw mewn tldi lle	Mae presenoldeb ysgol yn parhau i fod yn faes ffocws cryf ym Mlaenoriaeth Ffyniant Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn rhan o'r ymrwymiad i sicrhau bod gyda ni ysgolion da fel bo modd i bob plentyn gael mynediad at Addysg wych. Mae modd bwrw golwg ar ddiweddariad manwl o gynnydd yn ein Adroddiad Cyflawniad Chwarter 4.

Thema ar gyfer Gwella	Y Newyddion Diweddaraf ar Gynnydd
mae'r lefelau presenoldeb ar eu hisaf	Dangosodd data presenoldeb welliannau yn nhymor yr Hydref 2022/23 a darperir dadansoddiad manylach yn yr 'adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Addysg a Chynhwysiant ym mis Mawrth 2023. Er bod Arolwg Estyn o'r Gwasanaethau Addysg ym mis Ionawr 2023 yn argymhell gweithio'n agos gydag ysgolion, Unedau Cyfeirio Disgyblion a'r Consortiwm rhanbarthol i adeiladu ar waith y Cyngor i wella presenoldeb mewn ysgolion a lleihau gwaharddiadau, roedd yr adroddiad hefyd yn cydnabod yr ystod o ddulliau defnyddiol sydd eisoes ar waith ar gyfer gwella lles a chefnogi disgyblion sy'n agored i niwed. Gweler hefyd Risq Strategol 28
Moderneiddio ac integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a thrawsnewid gwasanaethau preswyl i blant y Cyngor. Sicrhau bod pobl agored i niwed sydd angen gofal yn ei dderbyn yn brydlon ac o fewn eu cymunedau eu hunain, gyda chyn lleied o amser â phosibl yn cael ei dreulio mewn ysbytai aciwt. Cynyddu capasiti a thrawsnewid ein gwasanaethau i symud y Cyngor i fodel dielw o ddarparu gofal preswyl sy'n agos i'r cartref	Mae moderneiddio ac integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn faes ffocws cryf yn rhan o 'Blaenoriaeth Pobl' yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae modd bwrw golwg ar y newyddion diweddaraf o gynnydd yn ein Hadroddiad Cyflawniad Chwarter 4 ac yn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor 2022/23 a ystyriwyd gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ym mis Medi 2023. Rydyn ni'n parhau ag adolygiad y Cyngor ar ffurf gofal preswyl i bobl hŷn yn y dyfodol er mwyn sicrhau ein bod ni'n creu'r model cywir o ddarparu gwasanaethau i ymateb i alw cynyddol ac anghenion newidiol yn y tymor hir. Ym mis Chwefror 2023, cytunodd y Cabinet cynigion i foderneiddio gwasanaethau gofal preswyl lleol gan gynnwys buddsoddiad cyfalaf mawr gwerth £60 miliwn mewn pedwar llety gofal o'r radd flaenaf yn Nhreorci, Glynrhedynog, Aberpennar a Phentre'r Eglwys, yn ogystal â chadw pum cartref gofal y Cyngor. Mae trawsnewid gwasanaethau preswyl i blant y Cyngor hefyd yn flaenoriaeth a chytunwyd ar gynllun gweithredu a Strategaeth Gwasanaethau Preswyl i Blant ar gyfer y 5 mlynedd nesaf gan y Cabinet ym mis Chwefror 2023. Pwrpas canolog y strategaeth yw cynyddu capasiti a thrawsnewid ein gwasanaethau er mwyn symud y Cyngor i fodel di-elw o ddarparu gofal preswyl sy'n agos i gartref. Mae hyn yn cyd-fynd â bwriad Llywodraeth Cymru i ddeddfu i ddileu elw o ofal. Gweler hefyd Risq Strategol 2
Parhau i adfywio canol trefi a chefnogi busnesau lleol. Mae gyda ni gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer canol ein trefi ac er gwaethaf yr	Mae buddsoddi yng nghanol ein trefi, dod â swyddi a chartrefi i ganol ein trefi i greu lleoedd bywiog, llewyrchus y mae pobl yn dymuno byw, gweithio a chymdeithasu ynddyn nhw yn ymrwymiad yn rhan o Flaenoriaeth Ffyniant Cynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae modd bwrw golwg ar ddiweddariad manwl o gynnydd yn ein Hadroddiad Cyflawniad Chwarter 4. Rydyn ni wedi gwneud buddsoddiad sylweddol ar draws canol ein trefi, gan weithio ar y cyd â phartneriaid yn y sector cyhoeddus a phreifat i gyflawni

Thema ar gyfer Gwella	Y Newyddion Diweddaraf ar Gynnydd
amgylchiadau ariannol anodd, mae angen i ni sicrhau ein bod ni'n gwneud y mwyaf o gyllid y DU a Llywodraeth Cymru i greu canol trefi ffyniannus a gallu cynnig amrywiaeth o lety masnachol o safon i fusnesau lleol i ddechrau a dod yn sefydliadau llwyddiannus sy'n cyflogi pobl leol	ystod o brosiectau i adfywio safleoedd allweddol. Mae'r gwaith yma'n cael ei arwain, a bydd yn cael ei arwain, gan ein strategaethau ar gyfer canol trefi unigol sydd wedi'u datblygu gyda chyfranogiad pobl a busnesau lleol. Mae'r gwaith yma hefyd yn cysylltu'n agos â pharatoi'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig sydd ar y gweill ar hyn o bryd. • Mae cyfraddau eiddo gwag yn parhau i fod yn isel yn Nhreorci (1.67%) a Phontypridd (10.71%). • Mae cyfraddau gwacter yn uwch ar hyn o bryd yn y Porth (18.85%) ac Aberdâr (15.91%) er y rhagwelir y bydd cyflawni eu strategaethau canol tref yn cael effaith gadarnhaol dros amser. • Mae'r data diweddaraf sydd ar gael (2021), yn dangos cyfraddau busnesau newydd uwch yn Rhondda Cynon Taf (18.2) o gymharu â Chymru (13.2) a'r DU gyfan (12.4), sy'n dangos yr amodau ffafriol ar gyfer datblygu busnes, er bod cyfraddau busnesau sy'n cau hefyd ychydig yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol (12.0 yn Rhondda Cynon Taf, 11.5 yng Nghymru, 11.1 y DU). Gweler hefyd Risq Strategol 11
Cefnogi'r rhai sydd angen tai Parhau i ganolbwyntio ar atal digartrefedd a gweithio gyda Llywodraeth Cymru, landlordiaid cymdeithasol preifat a chofrestredig i sicrhau bod gyda ni'r llety cywir, yn y lleoliad mwyaf priodol, a chyda chymorth addas i ddiwallu anghenion unigolion a'u teuluoedd pan fyddan nhw mewn perygl o fod yn ddigartref	Mae cefnogi'r rhai sydd angen tai yn faes ffocws cryf ym Mlaenoriaeth Ffyniant Cynllun Corfforaethol y Cyngor, yn rhan o'r ymrwymiad i <i>'gynyddu nifer y cartrefi o safon sydd ar gael ac sy'n fforddiadwy i ddarparu mwy o ddewis o dai i breswylwyr</i>. Mae modd bwrw golwg ar ddiweddariad manwl o gynnydd yn ein Hadroddiad Cyflawniad Chwarter 4. Cafodd yr Aseiad o'r Farchnad Dai Leol ei gymeradwyo gan y Cabinet ym mis Hydref 2022 ac mae'r canfyddiadau wedi llywio'r Strategaeth Dai Leol newydd a fydd yn cael ei thrafod i'w chymeradwyo yn 2024, i gyd-fynd â Chynllun Corfforaethol newydd y Cyngor. Serch hynny, oherwydd amodau economaidd a'r farchnad dai ehangach, mae opsiynau atal digartrefedd yn parhau i fod yn gyfyngedig, ac mae nifer yr aelwydydd sydd dan fygythiad o ddigartrefedd bron wedi dyblu ers 2021/22. Mae hyn yn golygu, er ein bod wedi llwyddo i atal digartrefedd ar gyfer 73% yn fwy o aelwydydd na'r llynedd, bu gostyngiad yng nghanran y cyflwyniadau digartrefedd a gafodd eu hatal yn llwyddiannus rhag dod yn ddigartref i 62% o 69% yn 2021/22. Gweler hefyd Risq Strategol 27

ADRAN

2



Cynnydd ar ein Cynllun Corfforaethol 2020-24

Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol
Crynodeb o'r Hunanasesiad 2022-23

ADRAN 2

Cynnydd ar ein Cynllun Corfforaethol 2020-24

Lansiodd y Cyngor ei ail Gynllun Corfforaethol, '[Gwneud Gwahaniaeth](#)' ym mis Mawrth 2020. Mae 'Gwneud Gwahaniaeth' yn seiliedig ar sylfaen gadarn y Cynllun Corfforaethol cyntaf, '[Y Ffordd Ymlaen](#)'. Mae 'Gwneud Gwahaniaeth' yn nodi sut y bydden ni'n cyflawni ein Gweledigaeth ar gyfer Rhondda Cynon Taf

'I fod y lle gorau yng Nghymru i fyw, gweithio a chwarae, lle mae pobl a busnesau yn annibynnol, yn iach ac yn llewyrchus'.

Mae 'Gwneud Gwahaniaeth' yn nodi tair blaenoriaeth ar gyfer y Cyngor; POBL, LLEOEDD a FFYNIANT, ein targedau uchelgeisiol ar gyfer gwella a'n dull o'u cyflawni. Roedd ein cynllun yn nodi sut y bydden ni'n gwneud hyn trwy

- Sicrhau bod **Pobl**: *yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus*
- Creu **Lleoedd** *ble mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw*
- Galluogi **Ffyniant**: *creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuriaidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu.*

Mae'r tair blaenoriaeth hefyd yn gweithredu fel ein Hamcanion Llesiant fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn dilyn lansiad 'Gwneud Gwahaniaeth', roedd y Cyngor yn wynebu'r gwaith o ymateb i bandemig byd-eang ac adfer ar ei ôl. Er gwaetha'r heriau a wynebwyd yn ystod y cyfnod hwnnw ac ers hynny, mae'r penderfyniadau y mae'r Cyngor wedi'u gwneud, yr adnoddau sydd wedi'u rhoi ar waith, y risgiau sydd wedi'u rheoli a'r cyfleoedd hyfforddi a datblygu sydd wedi'u darparu ar gyfer staff i gyd wedi'u cyfeirio at wneud gwahaniaeth i fywydau pobl a chymunedau Rhondda Cynon Taf ac wedi buddsoddi mwy na £450 miliwn ar draws y meysydd blaenoriaeth.

Mae blaenoriaethau'r Cyngor wedi'u gwreiddio'n dda yn strategaethau a threfniadau cynllunio eraill y Cyngor, gan gynnwys y [Gweithlu](#), [Cynllunio Ariannol](#) a [Strategaeth Rheoli Risg](#), gyda phob un o'r blaenoriaethau yn cyfrannu at gyflawni llesiant Economaidd, Cymdeithasol, Amgylcheddol a Diwylliannol Rhondda Cynon Taf, a Chymru.

Mae ein cynnydd yn yr hyn yr oedden ni wedi bwriadu ei gyflawni yn ein blaenoriaethau ers rhoi'r cynllun ar waith wedi'i nodi mewn adroddiadau rheolaidd i Gynghorwyr yn y Cabinet, Is-bwyllgorau a Phwyllgorau Craffu eu herio a'u gwirio, ac maen nhw ar gael yn gyhoeddus fel bod modd i drigolion bwrw golwg arnyn nhw. Mae ein cynnydd dros flwyddyn ariannol 2022/23 hefyd wedi'i nodi yn yr Aseiad yma yn [Adran 3](#). Er gwaethaf yr heriau digynsail a brofwyd gan bob un ohonon ni ers i ni gyflwyno ein Cynllun, ac wrth edrych yn ôl ar ein cynnydd ers 2020, gallwn ni ddangos tystiolaeth ein bod ni wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'r hyn yr oedden ni wedi bwriadu ei gyflawni.

Pobl



Roedden ni'n bwriadu cefnogi ein trigolion sy'n hŷn, agored i niwed, neu sydd ag anableddau, er mwyn iddyn nhw barhau i fod yn annibynnol a mwynhau bywyd o ansawdd.

- Rydyn ni hefyd wedi cytuno ar raglen foderneiddio hirdymor ar gyfer ein cartrefi preswyl sy'n canolbwyntio ar wasanaethau ataliol, llesiant ac anghenion y dyfodol ac sy'n cynyddu'r dewis i bobl sydd angen llety â gofal, sydd hefyd yn cynnig dewisiadau amgen hyfyw i'r rhai y mae modd iddyn nhw barhau i fod yn annibynnol yn eu cymunedau.
- Mae gyda ni breswylwyr wedi ymgartrefu yn eu cartrefi newydd yn ein trydydd cyfleuster gofal ychwanegol newydd yng Nghwrt yr Orsaf, Pontypridd ac mae gwaith i adeiladu pedwerydd cyfleuster yn y Porth wedi dechrau.
- Rydyn ni hefyd wedi agor cynlluniau llety byw â chymorth newydd yn Aberpennar a Llanhari i ddarparu amgylchedd diogel o ansawdd uchel i oedolion ag anableddau dysgu ac awtistiaeth fyw, ac mae mwy o oedolion yn dewis eu darparwyr gofal eu hunain.
- Rydyn ni'n cefnogi datblygiad mentrau bach newydd trwy ein cynllun peilot Catalydd Cymunedol i gynyddu nifer ac ystod y dewisiadau gofal cartref a chymorth i bobl leol.

Roedden ni'n bwriadu annog yr holl breswylwyr i fyw bywydau egniol ac iach a chynnal eu lles meddyliol, ac er gwaethaf effaith COVID-19 a chau ein canolfannau hamdden am gyfnodau hir, mae hyder wedi gwella, ac rydyn ni'n:

- gweld aelodaeth a nifer yr ymwelwyr â'n canolfannau hamdden yn uwch na'r lefelau cyn-bandemig.
- yn buddsoddi mewn campfa newydd, Llys Cadwyn, ym Mhontypridd yn ogystal ag adnewyddu pwll nofio'r Ddraenen Wen, gwella'r ystafell ffitrwydd yng Nghanolfan Hamdden y Ddraenen Wen ac ailagor Lido Ponty yn dilyn y difrod a gafodd ei achosi gan Storm Dennis ym mis Chwefror 2020.
- bellach gyda phedwar ar ddeg o gyfleusterau 3G ar draws y Fwrdeistref Sirol, gan gyflawni ein nod i drigolion gael mynediad at gyfleuster o'r fath o fewn radiws o 3 milltir i ble bynnag y maen nhw'n byw.
- yn cefnogi preswylwyr yn ystod yr argyfwng costau byw trwy ddarparu cyngor a chymorth, mynediad at grantiau gan gynnwys y cynllun Dewisol Cymorth Costau Byw Lleol a Chanolfannau Croeso y Gaeaf.

Roedden ni'n bwriadu integreiddio gofal iechyd a chymdeithasol a darparu cymorth i'r rheiny â phroblemau iechyd meddwl ac anghenion cymhleth, ac rydyn ni'n:

- parhau i weithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i gyflwyno dull rhyddhau o'r ysbyty newydd ers mis Ionawr 2023 o'r enw 'Rhyddhau i Adfer ac Asesu'. Nod y dull newydd yw gwella llif cleifion drwy ysbytai, cefnogi pobl i gael eu rhyddhau o'r ysbyty cyn gynted ag y byddan nhw'n ddigon iach a pharhau â'u gofal, adferiad ac asesiad ar gyfer unrhyw anghenion hirdymor naill ai yn eu cartref eu hunain neu leoliad cymunedol (y lle iawn).

- gweithio gyda'n partneriaid ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i archwilio opsiynau i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn ehangach gan gynnwys Gwasanaeth Iechyd Meddwl Cymunedol ar y cyd.

Er nad ydyn ni wedi gwneud y cynnydd y bydden ni wedi'i obeithio, rydyn ni wedi datblygu model Gwasanaethau Cymunedol Integredig a fydd, o'i roi ar waith, yn dod ag iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd gyda'r nod o ddiwallu anghenion a galw hirdymor yn awr ac yn y dyfodol.

Roedden ni'n bwriadu gwella gwasanaethau i blant a phobl ifainc a sicrhau bod anghenion plant yn cael eu hystyried ym mhob rhan o'n gwaith, ac rydyn ni'n:

- cyflawni ein [Strategaeth Atal Plant sy'n Derbyn Gofal](#) y cytunwyd arni yn 2022.
- wedi gweld tuedd hirdymor o ostyngiad yn nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ers 2019 a llai o blant yn cael eu rhoi yng ngofal y Cyngor.
- ar gyfer y plant hynny nad oes modd iddyn nhw aros gyda'u teuluoedd, rydyn ni wedi rhoi [Strategaeth Gwasanaethau Preswyl i Blant](#) ar waith fel bod modd iddyn nhw ddarparu gofal yn nes at adref.
- yn newid y ffordd rydyn ni'n darparu gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar, gan ganolbwyntio ar angen yn hytrach na lleoliad daearyddol. Mae hyn wedi gweld niferoedd uwch o blant yn cael eu nodi fel rhai sydd angen cymorth ychwanegol.

Lleoedd



Roedden ni'n bwriadu cadw Rhondda Cynon Taf yn lân trwy wasanaethau glanhau'r stryd effeithlon, lleihau'r gwastraff rydyn ni'n ei anfon i'r safle tirlenwi, cyflawni ein targedau ailgylchu trwy gasglu gwastraff ailgylchu bob wythnos a gwastraff cyffredinol yn rheolaidd, a lleihau ein hól-troed carbon. Rydyn ni wedi

- rhoi ['Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd: 'Hinsawdd Ystyriol RhCT' \(2022-2025\)](#) y Cyngor ar waith, gan ddechrau gwreiddio camau gweithredu Hinsawdd yn ein trefniadau Cynllunio Corfforaethol.
- rhoi [Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan 2021-2030](#) a chynllun gweithredu ar waith, gan roi gwybod am hynt y gwaith ar ein [Tudalen Gwefru Cerbydau Trydan](#).
- rhoi ein [Strategaeth Datgarboneiddio](#) benodol y Cyngor a chynllun gweithredu a fydd yn dangos ein taith tuag at fod yn Garbon niwtral erbyn 2030 ac yn bodloni gofynion adrodd carbon newydd Llywodraeth Cymru gan ychwanegu at ddata tueddiadau ein hallyriadau carbon am y tair blynedd diwethaf yn olynol.
- rhoi'r [Cynllun Pontio Fflyd ULEV](#) ar waith a pharhau i dreialu cerbydau trydan amgen.
- rhoi [Strategaeth Gomisiynu, Caffael Cymdeithasol Cyfrifol a Strategaeth Rheoli Contractau](#) ar waith sy'n cynnwys polisiau'r Cyngor i [leihau'r defnydd o eitemau plastig untro](#) a phrosiectau i gefnogi ein cyflenwyr i ddangos tystiolaeth a lleihau eu hallyriadau carbon.
- ymgysylltu â phreswylwyr i ddeall y rhesymau pam nad yw rhai pobl yn ailgylchu gwastraff bwyd, ac wedi cynnwys preswylwyr mewn penderfyniadau i wneud newidiadau i'n casgliadau bagiau du i gael eu casglu bob 3 wythnos, a fydd yn cael eu rhoi ar waith yn 2023/24 ac sydd wedi'u cynnwys mewn fersiwn ddiwygiedig o'r [Strategaeth Rheoli Gwastraff](#).
- Parhau i gymryd camau gorfodi yn ymwneud â throseddau baw cŵn a thipio anghyfreithlon ac erlyn y rhai a gyflawnodd y troseddau gyda chefnogaeth gan garfan o [Wardeniaid Cymunedol](#).
- Wedi adleoli ['Y Sied' yn Llantrisant](#) i leoliad mwy hygyrch. Siop ailddefnyddio newydd ['Y Sied'](#) yn agor yn Aberdâr.
- Rhoi'r ['Gwasanaeth casglu Gwastraff Gwyrdd'](#) diwygiedig ar waith gan ddefnyddio sachau gwastraff gwyrdd y mae modd eu hailddefnyddio.

Roedden ni'n bwriadu cadw'r Fwrdeistref Sirol yn symud, gan gynnwys cyflawni gwelliannau ar y ffyrdd a phalmentydd a thrafnidiaeth gyhoeddus, gan wella ansawdd yr aer. Rydyn ni:

- wedi datblygu a chyflawni cynlluniau ffyrdd mawr gan gynnwys yr [A4119 Cynllun Deuoli Coed-elái](#), cynnal gwaith mawr ac atgyweiriadau at bontydd gan gynnwys [Pont Sant Alban](#) ym Mlaenrhondda ac [atgyweirio Pont Droed Ynysangharad \(Pont M&S\)](#) ym Mhontypridd yn rhan o'n Rhaglen Gwella Ffyrrdd.
- wedi datblygu gwaith atgyweirio a chynlluniau lliniaru llifogydd helaeth a gwneud cynlluniau ar gyfer y [19 ardal llifogydd, Adran 19](#), cyhoeddi [diweddariad ar y gwaith a wnaed](#) ar liniaru llifogydd ac atgyweirio strwythurau ar adeg nodi dwy flynedd ers Storm Dennis ym mis

Chwefror 2022, ac mae 19 o adroddiadau Adran 19 sy'n ymwneud â phrif ardaloedd llifogydd yn Rhondda Cynon Taf wedi'u cyhoeddi ar ein [tudalennau gwe](#).

- Ym mis Mawrth 2023, fe wnaethon ni gynnal arbrawf wedi'i ariannu i [deithio ar fysiau am ddim](#), sef menter ledled y Fwrdeistref Sirol i holl drigolion Rhondda Cynon Taf i gefnogi lleihau carbon a rhoi hwb i deithio ar fysiau.
- Symud ymlaen â llwybrau teithio llesol rhwng Treorci a Threherbert; drwy Gwmbach, yn rhan o Lwybr Cynon, gwelliannau ar ran y Trallwn o Lwybr Taith Taf a rhan Abercynon o Lwybr Cynon.

Roedden ni'n bwriadu sicrhau bod y Fwrdeistref Sirol yn un o'r lleoedd mwyaf diogel yng Nghymru, gyda lefelau uchel o gydlyniant cymunedol a lle mae trigolion yn teimlo'n ddiogel. Rydyn ni wedi

- sefydlu [Lleoedd Bwyd Cynaliadwy](#) Rhondda Cynon Taf - partneriaeth '[Bwyd Rhondda Cynon Taf](#)' a threfnu achlysuron a gweithgareddau wedi'u hariannu gan grant yn y gymuned i gefnogi bwyd a thyfu cynaliadwy.
- parhau â'n gwaith rhagweithiol i sicrhau bod pobl yn cael eu hamddiffyn rhag masnachwyr twyllodrus a thwyll. Rydyn ni hefyd wedi defnyddio ein pwerau gorfodi i erlyn y rhai sy'n troseddu e.e [Ymgyrch CeCe](#).
- Ymgysylltu â phreswylwyr, adolygu ac adnewyddu'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus tair blynedd ar sylweddau meddwol, y cytunwyd arno gan y [Cabinet ym mis Medi 2021](#).
- Parhau â'n gwasanaethau lleihau niwed a chodi ymwybyddiaeth o niwed sy'n gysylltiedig â chamdddefnyddio sylweddau drwy ein darparwr [Barod](#), a chynyddu ein gwasanaeth allgymorth i gefnogi unigolion sydd angen ein cymorth, gan gynnwys pobl ddigartref.
- Symud ymlaen â Chanolfan Oasis a Gwasanaeth Cam-drin Domestig newydd ar y cyd, '[RCTDAS](#)', a fydd yn agor yn 2023/24, a chynyddu ein cymorth gan Ymgynghorydd Trais yn y Cartref Annibynnol i ganolbwyntio ar gleientiaid [Tai yn Gyntaf](#).

Roedden ni'n bwriadu cael y gorau o'n parciau drwy ofalu am ein mannau gwyrdd a buddsoddi ynddyn nhw . Rydyn ni:

- wedi symud ein [Rhaglen Buddsoddi Meysydd Chwarae](#) yn ei blaen.
- wedi agor '[Disgyrchiant](#)', sef [Parc Beiciau ar gyfer Teuluoedd](#), ym Mharc Gwledig Cwm Dâr.
- datblygu cyllid grant i wella [Parc Coffa Ynysangharad](#) a gwneud atgyweiriadau angenrheidiol yn dilyn Storm Dennis.
- Wedi cadw ein [Gwobr y Faner Werdd](#) gan Cadwch Gymru'n Daclus ar gyfer Parc Gwledig Cwm Dâr, Aberdâr; Parc Ffynnon Taf; a Pharc Coffa Ynysangharad, Pontypridd.
- Wedi datblygu [tudalen we bioamrywiaeth](#) newydd i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'n rheolaeth a'n mentrau glaswelltir blodau gwyllt, ac ymgysylltu â phreswylwyr ar [faterion bioamrywiaeth](#), e.e. [Dewch i Siarad am Flodau Gwyllt](#).
- Wedi cymryd rhan ym [Mhrosiect Canopi Gwyrdd y Frenhines](#) gan blannu coed i ddathlu Jiwbil Platinwm y Frenhines yn 2020.
- Datblygu [Strategaeth Coed a Choetiroedd Rhondda Cynon Taf](#), yn dilyn [ymgysylltu](#) â thrigolion, sy'n cydnabod y rôl bwysig y mae coed, llystyfiant a phriddoedd yn ei chwarae i storio carbon yn y 'cylchred carbon'.
- Cyflwyno ein [Adran 6 Dyletswydd Bioamrywiaeth – Adroddiad 3 Blynedd i Lywodraeth Cymru 2020-2022](#) gan gyflawni gofynion statudol [Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#).
- Wedi datblygu gweithgarwch i gefnogi Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2024, gyda [Swyddogion 2024](#) yn cael eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2022. Cynhaliwyd y [lansiad](#) swyddogol yn Nhreorci ym mis Mawrth 2023.

Ffyniant



Roedden ni'n bwriadu buddsoddi mewn canol trefi, dod â swyddi a chartrefi i ganol ein trefi i greu lleoedd bywiog, ffyniannus y mae pobl eisiau byw, gweithio a chymdeithasu ynddyn nhw. Rydyn ni

- wedi gosod cynlluniau uchelgeisiol i drawsnewid canol ein trefi trwy Fframwaith Canol Tref Aberpennar, Strategaeth Canol Tref y Porth, Cynllun Creu Lleoedd Canol Tref Pontypridd a [datblygu Strategaeth Canol Tref Aberdâr](#). Mae ein cynlluniau wedi ysgogi amrywiaeth o brosiectau ailddatblygu eiddo a safleoedd gan gynnwys datblygiad arobryn Llys Cadwyn ym Mhontypridd, ailddatblygu sgwâr Rhos (Guto), adeiladau Rhydychen a safle hen [Neuadd y dref yn Aberpennar](#) a [Hwb Trafnidiaeth y Porth](#). Mae prosiectau parhaus yn cynnwys ailddatblygu [Porth Deheuol Pontypridd](#) a chefnogi gwaith i [ailddatblygu'r 'Miwni'](#).
- cwblhau cyflwyno [Wi-Fi mynediad cyhoeddus am ddim](#) ym mhob un o'r saith Canol Tref.
- Cefnogi busnesau lleol trwy bandemig COVID-19 a thu hwnt gydag amrywiaeth o gymorth grant, gan gynnwys grantiau adfer COVID-19, grantiau gwrthsefyll llifogydd, cronfa buddsoddi mewn prosiectau mawr, cronfa buddsoddi mewn mentrau a grantiau cynnal a chadw canol trefi, gan ddarparu pecyn cynhwysfawr o gymorth i helpu busnesau i oroesi, addasu ac arallgyfeirio.
- Parhau i adolygu cymorth grant er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben a er mwyn cefnogi sefydlu a thyfu busnesau lleol cynaliadwy, adfywio safleoedd sydd wedi dirywio a safleoedd nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio ddigon a mesurau lleihau carbon ac effeithlonrwydd ynni.
- Cwblhau astudiaethau teithio llesol yng Nghanol ein Trefi sy'n symud yn eu blaenau i ddylunio a datblygu llwybrau teithio llesol newydd yn Aberdâr a Phontypridd.
- Gwella hygyrchedd tendrau'r Cyngor i fusnesau llai drwy rannu rhai o'n contractau mwy yn lotiau llai.

Roedden ni'n bwriadu cyflawni cynlluniau adfywio a thrafnidiaeth mawr, gwneud y gorau o'r cynllun Metro De Cymru newydd, i greu lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddyn nhw, gan ddiogelu a gwella'r Fwrdeistref Sirol. Rydyn ni:

- Wedi gweithio ar y cyd ar draws Dinas-ranbarth Caerdydd, gan arwain y gwaith o ddarparu'r grant [Trawsnewid Trefi](#) gwerth £15 miliwn i gyflawni cynlluniau mawr yng nghanol ein trefi (gweler uchod) a chyflawni [Cynllun deuoli parhaus yr A4119 Coed-elái](#).
- Adeiladu 20 [uned busnes modern yn Nhresalem](#).
- Rhoi [Strategaeth dwristiaeth](#) newydd ar waith, datblygu parc Cwm Dâr a Pharc Coffa Ynysangharad yn rhan o [Barc Rhanbarthol y Cymoedd](#), cefnogi'r gwaith i agor 'Zip World' a 'Disgyrchiant' – Parc Beiciau ar gyfer Teuluoedd a chynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yn Rhondda Cynon Taf yn 2024.
- Cynyddu [cyllid bwlch hyfywedd tai](#) i adfer tir halogedig ar draws safleoedd tir llwyd yng ngwaith Cwm Coking, ysbyty Aberdâr a safleoedd Heol y Wenallt.
- Dechrau datblygu [Cynllun Datblygu Lleol](#) newydd ar gyfer Rhondda Cynon Taf, gyda gwaith sylweddol eisoes wedi'i wneud, gan gynnwys gwaith ymgysylltu eang.

Roedden ni'n bwriadu sicrhau bod gyda ni ysgolion da fel bod modd i bob plentyn gael addysg wych. Rydyn ni wedi

- Datblygu a dechrau cyflwyno ein Cynllun Strategol Addysg ar gyfer 2022-25 a chytuno ar Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 Mlynedd newydd ar gyfer 2022-32.
- Parhau i gyflawni ein rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu uchelgeisiol a Gwelliannau Cyfalaf ar draws ein hysgolion, gan gynnwys:
 - Adeiladu ysgol newydd sbon ar gyfer Ysgol Gynradd Hirwaun
 - Cwblhau estyniad 4 ystafell ddosbarth a man chwarae awyr agored newydd yn [Ysgol Gynradd Ffynnon Taf](#), gyda gwres yn cael ei ddarparu trwy Ffynnon Dwym Ffynnon Taf.
 - Gwell mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg trwy gwblhau cyfleusterau newydd a chynyddu capasiti yn Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr ac Ysgol Gyfun Rhydywaun.
 - Dechrau prosiectau ym Mhontypridd ehangach – adeiladu Ysgol Gynradd Gymraeg Awel Taf, ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhydyfelin, Ysgol Bro Taf, yr ysgol 3-16 newydd ym Mhontypridd ac Ysgol Afon Wen, yr ysgol 3-16 newydd yn y Ddraenen Wen.
 - Buddsoddiad ar y gweill mewn [adeiladau newydd ar gyfer tair ysgol gynradd](#) ym Mhont-y-clun, Penygawsi a Llanilltud Faerdref drwy'r model Buddsoddi Cydfuddiannol
 - gwell cyfleusterau chwaraeon a chweched dosbarth yn cael eu darparu yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog.
 - Cael caniatâd cynllunio a dechrau gwaith ar ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn y Forwyn.
 - [Sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru](#) ar gyfer ysgol Net Sero enghreifftiol yng Nglyn-coch.
- Sefydlu proses Adolygu Pob Ysgol, gan ddod â staff awdurdodau lleol a Chonsortium Canolbarth y De at ei gilydd i drafod cryfderau a meysydd i'w datblygu ar gyfer ein hysgolion a sicrhau bod y cymorth cywir ar waith.
- [Symud ymlaen â rhoi'r deddfwriaeth ADY](#) newydd ar waith i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn well, gydag ysgolion Rhondda Cynon Taf yn graddio'n gadarnhaol eu parodrwydd i gyflwyno'r Ddeddf newydd.
- Cyflwyno swyddogion ymgysylltu â theuluoedd i'n hysgolion i gefnogi disgyblion a theuluoedd i oresgyn rhwystrau i ddysgu ac wedi sefydlu [Darpariaeth Cam 4](#) i gefnogi disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol sylweddol yn well.
- [Treialu model ysgol rithwir](#) i hyrwyddo deilliannau addysgol i Blant sy'n Derbyn Gofal a sicrhau bod cymorth yn cael ei gydlynu'n effeithiol.
- Dechrau cyflwyno'r cynnig Prydau Ysgol am Ddim Cyffredinol a gweithio gyda'r grŵp gweithredu ar dlodi plant er mwyn dileu rhwystrau yn yr ysgol ar gyfer plant sy'n byw mewn tldi, gydag Ysgol Gynradd Llwydcoed yn cael ei gwahodd i rannu [astudiaeth achos arfer da](#) o'u gwaith.
- Cafodd pandemig COVID-19 effaith sylweddol ar bresenoldeb ac ymgysylltiad disgyblion, yn enwedig i'r rhai sy'n byw mewn tldi. Rydyn ni'n parhau i ganolbwyntio ar y maes yma drwy gyflwyno ein [Strategaeth Presenoldeb](#) newydd.
- Cafodd ein cefnogaeth gref i'n hysgolion yn ystod y pandemig a chefnogaeth gadarnhaol ar gyfer presenoldeb a lles eu cydnabod yn ystod [Arolygiad Estyn](#) cadarnhaol yr Awdurdod Lleol ym mis Ionawr 2023.

Roedden ni'n bwriadu cynyddu nifer y cartrefi o ansawdd sydd ar gael ac sy'n fforddiadwy er mwyn darparu mwy o ddewis o ran tai i drigolion. Rydyn ni:

- wedi gweithio mewn partneriaeth â landlordiaid cymdeithasol i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi carbon isel sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, gan gynnwys gweithio gyda grŵp Tai Cymunedol Cynon Taf i gael caniatâd cynllunio ar gyfer 15 o gartrefi rhent cymdeithasol carbon isel ar safle hen ysgol Fabanod y Porth.
- Cefnogi preswylwyr i wneud eu cartrefi yn fwy ynni-effeithlon trwy weinyddu grantiau ar gyfer gosod insiwleiddio, boeleri effeithlon a mesurau arbed ynni eraill.
- Cwblhau [Asesiad o'r Farchnad Dai Leol](#) er mwyn deall yn llawn yr anghenion tai presennol ac anghenion y dyfodol yn yr ardal a gaiff ei ddefnyddio i lunio ein Strategaeth Dai leol newydd, a fydd yn cael ei llunio yn 2023/24.
- Adolygu cynnydd y Strategaeth Tai Gwag 2018-22, a leihaodd nifer y cartrefi gwag yn yr ardal o dros 600, a dechrau cyflawni ein [Strategaeth Tai Gwag](#), a fydd yn parhau i ganolbwyntio ar ailddefnyddio tai sydd wedi bod yn wag yn hirdymor.
- Rhoi'r [Cynllun Ailgartrefu Cyflym](#) ar waith ar gyfer ailgartrefu pobl sydd wedi profi digartrefedd, gan leihau neu ddileu'r angen am lety dros dro, lle bo modd.
- Gweithio ar y cyd â phartneriaid i gyflawni'r [Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol](#), sy'n cynyddu opsiynau tai ac yn darparu llety fforddiadwy i denantiaid a allai gael anhawster i rentu drwy'r sector preifat.

Roedden ni'n bwriadu helpu pobl i gael gwaith a swyddi sy'n talu'n well. Rydyn ni wedi

- Sefydlu cynllun benthyca 'Chromebook' i alluogi pobl heb eu dyfeisiau eu hunain i chwilio am swyddi a sesiynau hyfforddi ar-lein a mynychu cyfweiliadau ar-lein.
- Parhau i recriwtio a hyfforddi graddedigion a phrentisiaid ar gyfer rolau ar draws y Cyngor, gan ddarparu ystod eang o gyfleoedd gyrfa a sicrhau bod gyda ni bobl â'r sgiliau cywir i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Hyd yma, mae dros 220 o bobl ifainc wedi elwa o'r cyfleoedd yma ac mae'r mwyafrif wedi dod o hyd i swyddi parhaol o fewn y Cyngor.
- Darparu amrywiaeth o gymorth i helpu 1,793 o bobl o bob oed i gael gwaith, gan gynnwys pobl â chyflyrau iechyd ac anableddau sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio.
- Cefnogi'r 'cynllun Kickstart' cenedlaethol, gan weinyddu 313 o leoliadau gwaith cyflogedig chwe mis o hyd ar draws ystod o gyflogwyr ar gyfer pobl ifainc sydd mewn perygl o ddiweithdra hirdymor. Cynhaliodd Rhondda Cynon Taf hefyd 21 o leoliadau o fewn y Cyngor, gyda 10 o bobl yn sicrhau cyflogaeth barhaus gyda'r Cyngor a 5 mewn sefydliadau eraill yn dilyn eu lleoliadau.
- Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu cyfleoedd i bobl ifainc sydd â rhwystrau ychwanegol i waith, gan gynnwys darparu lleoliadau 'Porth i Gyflogaeth' i bobl ifainc ag anableddau dysgu a sefydlu'r [Gwasanaeth Care2Customer](#) mewn partneriaeth ag Ardal Gwella Busnes Treorci, i ddarparu profiad gwaith i bobl ifainc sydd â phrofiad o dderbyn gofal a'u hannog i ystyried gwaith yn y diwydiant lletygarwch.
- Cefnogi disgyblion yn ein hysgolion i ymgysylltu â gyrfa oedd trwy weithio'n agos gyda'n rhwydwaith arweinwyr gyrfa i ddatblygu meincnodau Gatsby ar gyfer arweiniad gyrfa oedd da ym mhob un o'n 20 ysgol uwchradd/gydol oes, gan dreialu cyfres o sgysiau, gweithgareddau a phrofiad gwaith ysbrydoledig y cynllun 'Ysbrydola Fi' gyda phobl o'r gymuned leol a chefnogi disgyblion sy'n agored i niwed heb gynlluniau yn eu lle ar gyfer y dyfodol trwy'r prosiect 'Golau Gwyrdd', gyda 97% o'r rheiny a oedd yn bresennol yn sicrhau cyflogaeth neu leoliadau coleg.
- Cefnogi ystod o gyfleoedd dysgu yn y gymuned i helpu pobl i ddatblygu sgiliau newydd a chefnogi eu lles.

Rydyn ni'n gwybod bod rhagor i'w wneud o hyd, yn enwedig wrth i ni barhau i gefnogi ein trigolion a'n cymunedau. Mae angen i ni gydnabod a pharhau i ymateb i'r cymyn sylweddol ac eang a grëwyd gan COVID-19 ac a brofwyd gan bobl o bob oed a chefnidir ledled Rhondda Cynon Taf, yn enwedig y bobl hynny a oedd eisoes dan anfantais cyn y pandemig digynsail.

Does dim un adroddiad unigol sy'n gallu rhoi darlun cyflawn, amserol a chynhwysfawr o'r holl waith sy'n cael ei wneud ar draws y Cyngor sy'n cyfrannu at gyflawni ein blaenoriaethau. Serch hynny, mae'r wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr Adroddiadau Cyflawniad chwarterol yn rhoi trosolwg defnyddiol y mae modd i'r darllenydd eu defnyddio i gael rhagor o wybodaeth fanwl.

Mae hefyd yn amhosibl i unrhyw un o'n hadroddiadau ddangos gwybodaeth am yr holl wasanaethau gwahanol rydyn ni'n eu darparu neu'n eu trefnu ar gyfer ein trigolion, ein cymunedau a'n busnesau, ond mae ystod o wybodaeth ar gael am ein holl wasanaethau ar [wefan y Cyngor](#).

Rydyn ni'n dechrau paratoi Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2024 a thu hwnt. I wneud hyn, byddwn ni'n parhau i adeiladu ar ein cyflawniadau hyd yma er mwyn sicrhau bod pob tref a chymuned yn y Fwrdeistref Sirol yn llefydd gwych i fyw a gweithio ynddyn nhw, ac i ymweld â nhw. Byddwn ni'n edrych ar sut y gallwn ni ymateb i'r heriau sy'n wynebu Rhondda Cynon Taf nawr ac yn y dyfodol ac yn siarad â phobl a chymunedau am yr hyn sydd bwysicaf iddyn nhw.

Cyfrannu at y Saith Nod Llesiant Cenedlaethol

Ffyniannus	Cydnerth	Iachach	Mwy Cyfartal	Cymunedau Cydlynus	Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu	Cyfrifol ar Lefel Fydeang
✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓



**Sut y gwnaethon
ni gyflawni ein
Blaenoriaethau
yn ystod 2022/23**

ADRAN 3

Sut aethon ni ati i gyflawni ein blaenoriaethau yn ystod 2022/23

Mae'r cynlluniau manwl i gyflawni ein tair blaenoriaeth POBL, LLEOEDD a FFYNIANT yn cael eu cytuno gan Gynghorwyr a'u monitro a'u craffu wedyn gan y Cabinet, yn ogystal â phwyllgorau Craffu a Llywodraethu ac Archwilio yn rhan o'r Adroddiadau Cyflawniad ac Adnoddau chwarterol. Er cydestun, mae'r Adroddiadau Cyflawniad chwarterol i'r Cabinet yn cynnwys:

- Crynodeb Gweithredol o Gyflawniad bob chwarter.
- Monitro Cyllideb Refeniw – nodi'r gwariant ariannol manwl yn erbyn y gyllideb ar draws ein Cyllideb Refeniw gan amlygu eithriadau.
- Monitro'r Gyllideb Gyfalaf – nodi gwariant ar draws ein Rhaglen Gyfalaf gydag eithriadau wedi'u hamlygu ac adran yn ymdrin â dangosyddion darbodus.
- Data Iechyd Sefydliadol – yn cynnwys trosiant staff, absenoldeb salwch, meysydd buddsoddi sefydliadol yn ymwneud ag iechyd a diweddariad ar Gofrestr Risg Strategol y Cyngor.
- Cyflawni ein Cynllun Corfforaethol: Cynnydd wrth gyflawni ein Blaenoriaethau Corfforaethol; Pobl, Lleuedd a Ffyniant.
- *Ein hymateb i ddigwyddiadau tywydd eithafol - y cynnydd a wnaed i weithredu'r argymhellion y cytunwyd arnyn nhw gan y Cabinet ar 18 Rhagfyr 2020.
- Crynodeb o Gamau Gweithredu allweddol yn deillio o Is-bwyllgor y Cabinet ar y Newid yn yr Hinsawdd.

**Yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2023, cytunodd y [Cabinet](#) y bydd adeiladu ar y cynnydd cadarnhaol, a'r gwaith parhaus ar draws holl feysydd y Cyngor i reoli a lliniaru perygl llifogydd yn 2023/24 yn y cynlluniau gweithredu ar gyfer blaenoriaethau'r Cyngor. Bydd adroddiadau penodol pellach, fel y bernir yn briodol, yn parhau i gael eu cyflwyno i'r Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu yn unol â'r rhaglenni gwaith y cytunwyd arnynt.*

O ran cyflawni ein Cynllun Corfforaethol ac yn arbennig y blaenoriaethau y mae'n eu nodi, mae'r [adroddiadau cyflawniad chwarterol](#) i'r Cabinet yn rhoi trosolwg o'n cynnydd, gyda hyperddolenni i ragor o adroddiadau pellach gan gynnwys rhai manylach, astudiaethau achos a 'chyfathrebu' perthnasol. Maen nhw hefyd yn cyflwyno adroddiadau cynnydd manylach trwy ddiweddariadau i bob un o'r tri chynllun gweithredu sy'n cael eu blaenoriaethu. Trafodwyd adroddiad diwedd blwyddyn 2022/23 gan [Cabinet ar 17 Gorffennaf 2023](#).

Gallwn weld o'r wybodaeth yma ein bod ni, ar y cyfan, yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni ein blaenoriaethau ond rydyn ni hefyd yn gwybod am y meysydd hynny y mae angen i ni eu gwella. Mae'r isadrannau canlynol yn crynhoi'r cynnydd a ddisgrifir yn yr adroddiad diwedd blwyddyn.

Pobl



Mae POBL... yn annibynnol, iach a llwyddiannus

Datganiad Cyffredinol o Gynnydd

Gwelwyd cynnydd cadarnhaol o ran cefnogi pobl i fod yn annibynnol, iach a llwyddiannus yn ein gwaith fel Cyngor a chyda chyrff sector cyhoeddus, y trydydd sector a phartneriaid cymunedol. Isod, mae crynodeb o'n cyflawniadau a lle na wnaethon ni gymaint o gynnydd ag y bwriadwyd.

Dywedon ni y byddwn ni'n agor cynlluniau Gofal Ychwanegol ar gyfer pobl sydd angen cymorth ychwanegol er mwyn parhau i fyw'n annibynnol, ymysg pethau eraill sydd gyda ni.

- Symud ymlaen gyda'r gwaith o adeiladu Gofal Ychwanegol y Porth a pharhau i ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer tri chyfleuster yn Aberpennar, Treorci a Glynrhedynog.
- Sefydlu Cynllun Byw â Chymorth yn Llanhari, symud ymlaen â'r gwaith o sefydlu cynllun tebyg yn Nhreorci mewn partneriaeth â Thai Cynon Taf, ac wedi gwneud cynnydd â'n cynlluniau i sefydlu dau gynllun tebyg yn Nhonypanyd a Gelli.
- Cytuno ar fuddsoddiad gwerth £60 miliwn i foderneiddio gwasanaethau gofal preswyl lleol.

Addawon ni i ddarparu gwasanaethau galluogi sy'n helpu pobl i adennill neu gynyddu eu hannibyniaeth, ac ymhlith pethau eraill rydyn ni wedi

- Creu gwelyau 'cam i fyny cam i lawr' ychwanegol yn ein cartrefi gofal.
- Cyflwyno'r model 'Rhyddhau i Adfer ac Asesu', parhau i fuddsoddi yn ein Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref sydd wedi ennill gwobrau ac wedi addo buddsoddiad newydd i gynyddu capasiti ein Carfan Gwaith Cymdeithasol mewn Ysbytai, ac wedi osgoi derbyn cleifion mewnol neu wedi cefnogi'r system rhyddhau diogel ar gyfer 48 o bobl yr wythnos ar gyfartaledd.
- Cynyddu capasiti yn Gofal a Thrwsio'r Comisiwn fel bod modd i ni gwblhau mân addasiadau a grantiau Cyfleusterau i'r Anabl bach/canolig yn gynt.

Dywedon ni y byddwn ni'n defnyddio technoleg i wella annibyniaeth a chynorthwyo gyda gofal, ac ymhlith pethau rydyn ni wedi

- Gweithio gyda phartneriaid i gyflwyno prosiect peilot '[Just checking](#)' a '[Just roaming](#)' ar draws ein Gwasanaethau Byw â Chymorth, archwilio'r cyfleoedd sydd ar gael i oedolion ag anableddau dysgu ac awtistiaeth fyw'n fwy annibynnol a diogel yn eu cartrefi byw â chymorth.

Dywedon ni y byddwn ni'n cynnig cymorth i gynhalwyr ac eleni, ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi

- Gweithio gyda chynhalwyr i ddatblygu manyleb ar gyfer gwasanaeth gwarchod i gynhalwyr newydd.

Dywedon ni y byddwn ni'n darparu cymorth ac offer sy'n caniatáu i bobl aros yn fwy annibynnol gartref, ac ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi

- Rhoi trefniadau newydd ar waith ar gyfer rheoli Taliadau Uniongyrchol.
- Lansio Prosiect Catalydd Cymunedol i gefnogi pobl a phartneriaid lleol i ddatblygu mentrau bach a all ddarparu dewis go iawn a chynyddu nifer ac ystod y dewisiadau gofal cartref a chymorth i bobl lleol.

Dywedon ni y byddwn ni'n comisiynu amrywiaeth o ddarpariaethau yn y gymuned er mwyn galluogi pobl i barhau i fod yn rhan weithgar o'u cymunedau, ac ymhlith pethau eraill, rydyn ni

- Wedi gweithio gyda phobl hŷn a phobl ag anableddau trwy ein prosiect ymgysylltu, [Fy Niwrnod, Fy Ffordd](#) i ystyried dull wedi'i gyd-gynhyrchu ar gyfer gwasanaethau oriau dydd sy'n diwallu eu hanghenion yn well ac yn eu cefnogi i gyflawni eu nodau.

Doedd dim cymaint o gynnydd ag yr oedden ni wedi'i gynllunio gydag ein

- Strategaeth Ddigidol Gwasanaethau i Oedolion. Fodd bynnag, rydyn ni wedi parhau i wneud y defnydd gorau o dechnoleg a datblygu prosiectau digidol i wella annibyniaeth pobl a chynorthwyo gyda darparu gofal a chymorth, ochr yn ochr â gwaith i ddatblygu Strategaeth Ddigidol Gwasanaethau i Oedolion a chynllun gwaith, a gaiff eu cwblhau blwyddyn nesaf.
- Cynlluniau i weithio gyda darparwyr Gofal yn y Cartref i adolygu ac ailgynllunio gofal cartref.
- Cynlluniau i ddatblygu cynigion ar gyfer ailgynllunio gwasanaethau oriau dydd i bobl hŷn a phobl ag anableddau yn dilyn y gwaith ymgysylltu [Fy Niwrnod, Fy Ffordd](#) uchod.

Mae ein gwaith o fewn blaenoriaeth **POBL** yn cael ei oruchwylio gan y Cabinet, Pwyllgorau Craffu perthnasol a, lle bo hynny'n briodol, [Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg](#), [Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg](#), a [Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf](#) (o fis Mai 2023, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg). Mae rhai o'r gwasanaethau sy'n cyflawni'r flaenoriaeth yma hefyd wedi'u harolygu gan Archwilwyr annibynnol, hynny yw, Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae modd gweld rhagor o wybodaeth am eu canfyddiadau ar ein [gwefan](#).

Mae rhagor o wybodaeth am ein gwasanaethau yn [Adroddiad Blynnyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2022/23](#).

Rhai ffyrdd mae ein blaenoriaeth **POBL** yn cyfrannu at y 7 Nod Llesiant Cenedlaethol.

Lleoedd



LLEOEDD...

Ile mae pobl yn falch o gael byw, gweithio a chwarae ynddyn nhw

Datganiad cyffredinol o gynnydd

Gwnaethon ni gynnydd cadarnhaol wrth wneud newidiadau i gynyddu cyfraddau ailgylchu, gan ddefnyddio pwerau gorfodi i gadw ein strydoedd yn lân, ein trigolion yn ddiogel a gwella ein ffyrdd a gwrthsefyll llifogydd. Rydyn ni hefyd wedi defnyddio gwybodaeth o ymgysylltu â phreswylwyr gan gynnwys ['Dewch i Siarad RhCT'](#) i lywio ein penderfyniadau, ac wedi darparu [gwybodaeth, cymorth a phhecynnau ariannol](#) i helpu trigolion gyda'r argyfwng 'Costau Byw'. Rydyn ni'n deall bod rhagor o waith i'w wneud o hyd, ac mae crynodeb o'n cyflawniadau a'r meysydd lle na wnaethon ni gymaint o gynnydd ag yr oedden ni wedi'i gynllunio i'w weld isod.

Dywedon ni y byddwn ni'n parhau i hyrwyddo arferion ailgylchu da, ac rydyn ni wedi

- Hyrwyddo ymgyrchoedd addysgol gan gynnwys cystadlaethau'r [Pasg](#) a'r [Nadolig](#), annog a chynyddu ailgylchu yn ystod [dathliadau'r Jiwbilî](#).
- Agor ['sied' newydd](#) sy'n siop ailddefnyddio yn Aberdâr fel bod gennym ni siop ailddefnyddio yn ardaloedd Cwm Rhondda, Cwm Cynon a Thaf-elái.
- Ailagor [Canolfan Addysg Bryn Pica](#)
- Ailgylchu 64.97% - 74,825 tonnall o wastraff.

Dywedon ni y byddwn ni'n cynyddu ein darpariaeth rhandiroedd i gefnogi preswylwyr i 'Dyfu eu Cynnyrch eu Hunain' a sicrhau bod lleiniau rhandir hygyrch ar gael yn Abercynon. Rydyn ni hefyd wedi gwella'r wybodaeth sydd ar gael i breswylwyr am Randiroedd trwy gyfrwng newydd [Tudalen We Rhandir](#).

Fe wnaethon ni ymgysylltu â phreswylwyr ynghylch gwasanaeth casglu gwastraff diwygiedig arfaethedig drwy [Dewch i Siarad am Ailgylchu a Chasgliadau Tair Wythnos](#), ac rydyn ni wedi defnyddio'r wybodaeth yma i lywio newidiadau i'r gwasanaeth casglu gwastraff. Cafodd adborth ei drafod gan y Cabinet ac yn rhan o'r adolygiad diwygiedig [Strategaeth Rheoli Gwastraff](#).

Dywedon ni y byddwn ni'n mynd i'r afael â baw cŵn, tipio anghyfreithlon a thaflu sbwriel, ac rydyn ni wedi defnyddio ein pwerau gorfodi i erlyn pobl sy'n cyflawni'r troseddau hyn o ddydd i ddydd. Rydyn ni hefyd wedi gwella adnoddau gorfodi i fynd i'r afael â throseddau amgylcheddol yn RhCT. Aethon ni ati i waredu ar 92.87% (3,087) o achosion o dipio anghyfreithlon y cawsom ni wybod amdanyd nhw o fewn 5 diwrnod.

Dywedon ni y byddwn ni'n bwrw ymlaen â'n gwaith i fynd i'r afael â Newid yn yr Hinsawdd ac mae ein gwaith yn cynnwys:

- Rhoi strategaeth Mynd i'r Afael â Newid yn yr Hinsawdd y Cyngor - '[Hinsawdd Ystyriol RhCT](#)' ar waith.
- Trafnidiaeth Gynaliadwy - Edrych ar ffyrdd o drosglwyddo ein fflyd cerbydau i ULEV a gweithredu [Cynllun Pontio Cerbydau Allyriadau Isel Iawn \(ULEV\)](#).
- Gweithredu ein [Cynllun Gweithredu Codi Tâl Cerbydau Trydan](#), i gefnogi ein [Strategaeth Codi Tâl Gwefru Cerbydau Trydan](#) ledled y Fwrdeistref Sirol fel Cyngor ac mewn partneriaeth ag Awdurdod Trafnidiaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.
- Cymryd camau i greu ynni adnewyddadwy yn [Fferm Solar Coed Elái](#) ac ym [Mharc Gwledig Cwm Dâr](#) a [Chored Trefforest](#) trwy [gynhyrchu trydan dŵr](#).
- Canolbwyntio ar gaffael cynaliadwy drwy ein Strategaeth Rheoli Contractau a [Chaffael sy'n Gyfrifol yn Gymdeithasol](#) newydd, gweithredu polisiau sy'n lleihau ein defnydd o eitemau plastig untro a gweithio gyda'n cyflenwyr i ddangos tystiolaeth a lleihau eu hallyriadau carbon.
- Parhau i ehangu, cynnwys ac ymgysylltu â thrigolion, busnesau a rhanddeiliaid ar faterion hinsawdd ac amgylcheddol trwy , a
- Rhoi'r [Strategaeth Datgarboneiddio Corfforaethol a Chynllun Gweithredu](#) sy'n anelu at gefnogi'r gwaith o gyflawni ein targedau lleihau carbon erbyn 2030 a waith.

Dywedon ni y byddwn ni'n parhau i wella cyflwr ein ffyrdd a'n palmentydd a buddsoddi yn ein pontydd, waliau cynnal a systemau draenio llifogydd cynaliadwy, ac ymysg pethau eraill rydyn ni wedi;

- Cwblhau atgyweiriadau pont yn [Nant Cwm Parc, Treorci](#), Pont Droed Stryd y Fasnach, Aberdâr, [Pont Droed Stryd y Nant](#), Ystrad a [Phont Tramffordd Gelli Isaf, Trecynon](#). Rydyn ni hefyd wedi symud ymlaen â gwaith [Pont \(Gwyn\) Heol Berw](#), Pontypridd, [Pont Droed Castle Inn](#), Trefforest a [Phont Haearn Tramffordd](#) ger Tresalem.
- Dechrau gwaith ar Gynllun Deuoli'r [A4119 Coed Elái](#).
- Cwblhau/gwneud cynnydd at atgyweirio, gosod wyneb newydd a gwaith draenio ar 17 o ffyrdd mabwysiedig, 15 wedi'u cwblhau, a 2 sy'n parhau ar draws RhCT.

Dywedon ni y byddwn ni'n rhoi mesurau Lliniaru Llifogydd ar waith i liniaru perygl llifogydd, ac mae hyn wedi cynnwys

- Ymgymryd â gwaith gwella yng [Ngorsaf Bwmpio Glenboi](#), Aberpennar, a chwblhau Cynlluniau Lliniaru Llifogydd (FAS) yn [Nhreorci](#), [Abercwmboi](#), [Ynys-hir](#), Maes y Ffynnon / Heol Caerdydd, Aberdâr, [Rhydfelen](#), [Pentre](#), [Treherbert](#) a Chwmaman, a gwnaeth hefyd atgyweiriadau arglawdd yng [Nglyn-coch](#).
- Cwblhau'r camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion yn yr adolygiad o'r [Ymateb y Cyngor i Storm Dennis](#), ac ymgorffori'r gwaith parhaus o fewn y trefniadau Rheoli Perygl Llifogydd newydd.
- Cyhoeddi 19 [Adroddiad Ymchwilio i Llifogydd Adran 19](#) yn dilyn y llifogydd yn RhCT, fel sy'n ofynnol gan [Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010](#).
- Adolygu Strategaeth a Chynllun Gweithredu Rheoli Perygl Llifogydd y Cyngor, fel y'u trafodwyd gan [y Cabinet ym mis Tachwedd 2022](#), a rhan annatod ohono [yw ymgysylltu â thrigolion](#).

Dywedon ni y byddwn ni'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol i barhau i wella mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus, ac ymhlith pethau eraill, rydyn ni

- Wedi rhoi arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar waith i hwyluso cyfnod prawf [cludiant bws am ddim](#) i holl drigolion RhCT i gefnogi'r ymdrechion i leihau allyriadau carbon a rhoi hwb i deithiau bws. Cofnodwyd cynnydd cyfartalog o 35% yn nifer y teithwyr o gymharu â'r mis blaenorol yn ystod mis Mawrth 2023.
- Bwrw ymlaen â llwybrau teithio llesol rhwng Treorci a Threherbert; trwy Gwm-bach, yn rhan o Lwybr Cwm Cynon, a gwelliannau ar ran y Trallwn o Lwybr Taith Taf, a rhan Abercynon o Lwybr Cwm Cynon.
- Parhau â gwaith ar gynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau Maes y Bryn i ddarparu amgylchedd mwy diogel i gerddwyr, gan annog rhagor o rieni a disgyblion i gerdded i'r ysgol a gartref, a lleihau allyriadau cerbydau yn yr ardal. Fe wnaethon ni hefyd gwblhau croesfannau newydd i gerddwyr yn [Llanilltud Faerdre](#) a [Groes-faen](#).

Dywedon ni y byddwn ni'n cynyddu ymglymiad cymunedol yn natblygiad ein gwasanaethau, ac ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi

- Darparu llwybrau cymorth i breswylwyr reoli effeithiau'r argyfwng 'Costau Byw' drwy wasanaeth [tudalen we](#) penodedig gyda gwybodaeth berthnasol.
- Cefnogi 'Canolfannau Croeso'r Gaeaf' ar draws RhCT i gefnogi pobl mewn tlodi bwyd.
- Sefydlu Cynllun Grant Cymunedol RhCT i ddarparu £4.3 miliwn o'r [Gronfa Ffyniant Gyffredin](#), megis prosiectau cymunedol. Canolbwyntiodd y cynllun ar gefnogi cymunedau i leihau costau byw (gan gynnwys effeithlonrwydd ynni), mynd i'r afael â thlodi tanwydd a lleihau allyriannau carbon.
- Parhau i ddatblygu RhCT yn Lle Bwyd Cynaliadwy – [Bwyd RhCT](#).

Dywedon ni y byddwn ni'n gweithio gyda'r heddlu a'r Bartneriaeth Cymunedau Diogel i atal a rhwystro ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau, ac ymhlith pethau eraill rydyn ni wedi

- Penodi [Wardeniaid yn y Gymuned](#) i ddarparu presenoldeb calonogol proffil uchel yng nghanol ein trefi, a defnyddio ein pwerau gorfodi i gyhoeddi [Gwaharddeb Sifil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol \(ASBI\)](#) er mwyn atgyfnerthu negeseuon o ddim goddefgarwch a'r canlyniadau a allai deillio o droseddau YGG sy'n ailddigwydd.
- Cyflwyno [Mannau Diogel](#) i oedolion yn Llyfrgelloedd Pontypridd, Aberdâr a Threorci i bobl sy'n teimlo ar goll, yn ofnus neu angen cymorth tra'u bod nhw allan yn y gymuned.
- Gwella ein gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau, gyda rhagor o adnoddau, trefniadau archebu gwell a chysiau hyfforddi ychwanegol.
- Bwrw ymlaen â Chanolfan Oasis a Gwasanaeth Cam-drin Domestig newydd [RCTDAS](#) a fydd yn agor yn 2023/24.

Dywedon ni y byddwn ni'n darparu ymateb amlasiantaeth i bob math o drais a cham-fanteisio troseddol ar blant ac oedolion sy'n agored i niwed, ac ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi

- Treialu achlysur codi ymwybyddiaeth 'Ffrindiau Ifainc yn Erbyn Sgamiau' (YFAS) gyda 33 o blant 8-12 oed yn Ysgol Nant-gwyn - derbyniwyd yr achlysur [yn gadarnhaol](#).
- Parhau i amddiffyn ein trigolion rhag masnachu anghyfreithlon ac erlyn masnachwyr twyllodrus. Mae hyn yn cynnwys erlyn achosion yn ymwneud â gwerthu [cynnyrch tybaco anghyfreithlon](#), a nwyddau ffug ym [Merthyr Tudful](#) ac [Aberpennar](#); cyhoeddi [Gorchymyn Cau](#)

[Storfa](#) ar gyfer gwerthu cynnyrch tybaco ffug ac e-sigarennau tafladwy i blant yn Aberdâr a dirymu [trwydded gyrrwr tacsî](#) yn dilyn camymddygiad.

Dywedon ni y byddwn ni'n buddsoddi yn ein parciau a'n seilwaith ac ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi

- Bwrw ymlaen gydag ein [Rhaglen Buddsoddi Maes Chwarae](#) gyda gwelliannau i 13 maes chwarae yn ystod 2022/23.
- Gosod arwyddion bioamrywiaeth newydd yn dathlu bioamrywiaeth a chynyddu ymwybyddiaeth o'r mathau o fioamrywiaeth sydd ym Mharc Gwledig Cwm Dâr, a phrosiect '[Traciau a Llwybrau](#)' newydd.
- Dathlu derbyn Baneri Gwyrdd ym [Mharc Gwledig Cwm Dâr, Aberdâr, Parc Ffynnon Taf](#) a Pharc Coffa Ynysangharad, Pontypridd i gydnabod eu cyfleusterau gwych i ymwelwyr, safonau amgylcheddol uchel, a'u hymrwymiad i ddarparu man gwyrdd o ansawdd gwych.
- Datblygu ein [Strategaeth Coed a Choetiroedd RhCT](#), ar ôl [ymgysylltu](#) â thrigolion. Mae'r Strategaeth yn cydnabod y rôl storio carbon bwysig sydd gan goed, llystyfiant a phriddoedd yn y 'cylchred carbon'.
- Cyflwyno ein [Dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6 – Adroddiad 3 Blynedd i Lywodraeth Cymru 2020-2022](#)' i gyflawni gofynion statudol [Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#).
- Parhau i gefnogi paratodau ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2024, ar ôl [cyhoeddi enwau'r swyddogion](#) ym mis Rhagfyr 2022, a'r [lansiad swyddogol](#) a gynhaliwyd yn Nhreorci ym mis Mawrth 2023.

Doedd dim cymaint o gynnydd ag yr oedden ni wedi'i gynllunio yn y meysydd canlynol:

- Gweithio gyda'r Gwasanaeth Prawf i alluogi pobl ar brawf i gyfrannu at weithrediadau glanhau cymunedol yn rhan o'u gwasanaeth cymunedol.
- Rhai prosiectau Priffyrdd a Llifogydd oherwydd materion â'r safle. Mae gwaith yn parhau yn 2023/24, e.e. amnewid Pont Reilffordd Llanharan a chwblhau achos busnes amlinellol ar gyfer Cynllun Lliniaru Llifogydd Treorci.

Mae ein gwaith yn rhan o flaenoriaeth yn cael ei oruchwylio gan y Cabinet, Pwyllgorau Craffu perthnasol a, lle bo'n briodol, [Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd](#), [Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg](#) a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf *(o fis Mai 2023, BGC Cwm Taf Morgannwg)*.

Rhai ffyrdd mae ein blaenoriaeth **LLEOEDD** yn [cyfrannu](#) i'r 7 Nod Llesiant Cenedlaethol.

Ffyniant



FFYNIANT

Creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuriaidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu.

Datganiad Cyffredinol o Gynnydd

Gwnaethon ni gynnydd cadarnhaol wrth gefnogi busnesau lleol, adfywio canol ein trefi, cefnogi pobl ifainc i gael addysg wych, helpu pobl i gael mynediad at dai a chefnogi pobl i mewn i waith. Isod mae crynodeb o'r hyn rydyn ni wedi'i gyflawni a lle mae rhagor i'w wneud o hyd.

Dywedon ni y byddwn ni'n cefnogi busnesau newydd a phresennol yng nghanol ein trefi ac rydyn ni wedi

- Darparu grantiau i 84 o fusnesau lleol i'w helpu i sefydlu, ehangu neu arallgyfeirio, cefnogi'r broses o greu neu ddiogelu 10 swydd a gwella eiddo mewn 15 o safleoedd.
- Rhoi pecyn newydd o gymorth ariannol at ei gilydd ar gyfer y dyfodol i gefnogi sefydlu a thyfu busnesau lleol cynaliadwy, adfywio safleoedd sydd wedi dirywio neu safleoedd nad ydynt yn cael eu defnyddio ddigon a mesurau lleihau carbon ac effeithlonrwydd ynni.

Dywedon ni y byddwn ni'n buddsoddi yng nghanol ein trefi, gan greu lleoedd bywiog, ffyniannus y mae pobl yn dymuno byw, gweithio a chymdeithasu ynddyn nhw, ac rydyn ni wedi

- Symud ymlaen â [Strategaeth Adfywio Canol Tref y Porth](#) trwy ddatblygu'r [Hwb Trafnidiaeth](#).
- Cymeradwyo'r [Cynllun Creu Lleoedd Canol Tref Pontypridd](#) a symud ymlaen â gwaith ar [Brosiect Porth y De](#). Gweithio gyda phartneriaid ar waith [aiddatblygu Canolfan Gelfyddydol y Miwni](#).
- Sicrhau bod pobl a busnesau lleol yn chwarae rhan yn natblygiad a [strategaeth adfywio ddrafft ar gyfer Aberdâr](#).
- Cefnogi Cymdeithas Tai Cwm Rhondda i ddarparu [13 o fflatiau fforddiadwy yng nghanol y dref](#).
- Ennill cydnabyddiaeth am ein cydweithrediaid cadarnhaol gyda busnesau lleol, Ardaloedd Gwella Busnes (AGB), Cynghorau Tref a rhanddeiliaid eraill yn y [Gwobrau Dewch i Ddathlu Trefi](#), gydag Aberpennar yn derbyn [gwobr Seren Newydd Cymru](#), a Phontypridd yn derbyn [gwobr Pencampwr Tref Cymru](#).

Dywedon ni y byddwn ni'n cyflwyno cynlluniau adfywio a thrafnidiaeth mawr i greu lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddyn nhw, ac rydyn ni wedi

- Gweithio ar y cyd ar draws Rhanbarth Dinas Caerdydd, gan barhau i arwain y gwaith o ddarparu £15 miliwn o grant [Trawsnewid Trefi](#) i gyflawni cynlluniau mawr yng nghanol ein trefi (gweler uchod) a pharhau i gyflawni'r cynlluniau parhaus [Cynllun Deuli'r A4119 Coed Elái](#).
- Bwrw ymlaen [â'r bwlch hyfywedd tai](#) i adfer tir halogedig ar draws safleoedd tir llwyd yng ngwaith Cwm Coking, ysbyty Aberdâr a safleoedd Heol y Wenallt.
- Parhau i baratoi ein Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig, a fydd yn cynnwys polisïau lefel strategol ar ddefnydd tir a diogelu, gan gynnwys [galwad am safleoedd ymgeisiol](#) i nodi lleoliadau addas ar gyfer datblygiad yn y dyfodol gan gynnwys adeiladu tai.

Dywedon ni y byddwn ni'n sicrhau bod gennym ni ysgolion da fel bod modd i bob plentyn gael mynediad i Addysg wych, ac rydyn ni wedi

- Sefydlu proses Adolygu Pob Ysgol, gan ddod â staff awdurdodau lleol a Chonsortium Canolbarth y De ynghyd i drafod cryfderau a meysydd i'w datblygu ar gyfer ein hysgolion, a sicrhau bod y cymorth cywir yn ei le.
- Gwerthuso [effaith swyddogion ymgysylltu â theuluoedd](#) mewn ysgolion i gefnogi disgyblion a theuluoedd i oresgyn rhwystrau i ddysgu, ac ymestyn y gefnogaeth yma i 13 o ysgolion ychwanegol.
- Lansio [Strategaeth Presenoldeb](#) newydd ac ailstrwythuro ein gwasanaethau i ganolbwyntio cymorth ar y disgyblion mwyaf difreintiedig, gyda phwyslais ar ymyrraeth gynnar i atal absenoldeb parhaus rhag ymwreiddio.
- [Treialu dull ysgol rithwir](#) i sicrhau cymorth cydgysylltiedig effeithiol ar gyfer canlyniadau addysgol Plant sy'n Derbynn Gofal.

Dywedon ni y byddwn ni'n gwella deilliannau i blant a phobl ifainc sydd ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau, ac rydyn ni wedi

- Symud ymlaen â'r gwaith o weithredu'r [ddeddfwriaeth ADY](#) newydd i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn well. Yn dilyn hunanwerthusiad, rhoddodd ysgolion RhCT sgôr gadarnhaol i'w parodrwydd i gyflwyno'r Ddeddf newydd.
- Ehangu [Cam 4 darpariaeth](#) cefnogi disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol sylweddol yn well.

Dywedon ni y byddwn ni'n buddsoddi mewn Ysgolion yr 21ain Ganrif newydd a gwell, gan gwrdd â'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac rydyn ni wedi

- Cwblhau estyniad 4 ystafell ddosbarth a man chwarae awyr agored newydd yn [Ysgol Gynradd Ffynnon Taf](#), gyda gwres yn cael ei ddarparu trwy Ffynnon Thermol Ffynnon Taf.
- Gwella mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg trwy ddarparu cyfleusterau newydd a chynyddu capasiti yn YGG Aberdâr ac YG Rhydywaun.
- Dechrau ar brosiectau ym Mhontypridd fwyaf – adeiladu Ysgol Gynradd Gymraeg Awel Taf, ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhydfelen, Ysgol Bro Taf, yr ysgol 3-16 newydd ym Mhontypridd ac Ysgol Afon Wen, yr ysgol 3-16 newydd yn y Ddraenen Wen.
- Buddsoddi mewn [adeiladau newydd ar gyfer tair ysgol gynradd](#) ym Mhont-y-clun, Penygawsi a Llanilltud Faerdref drwy'r model Buddsoddi Cydfuddiannol, gyda gwaith yn dechrau ar y safle.
- Dechrau darparu cyfleusterau chwaraeon a chweched dosbarth newydd yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog.
- Cael caniatâd cynllunio a dechrau gwaith ar ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn y Forwyn.
- [Sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru](#) ar gyfer ysgol gynradd enghreifftiol 'Net Zero' yng Nglyn-coch.

Dywedon ni y byddwn ni'n cynyddu nifer y cartrefi o ansawdd sydd ar gael ac sy'n fforddiadwy er mwyn darparu dewis tai gwell i breswylwyr, ac rydyn ni wedi

- Cwblhau'r [Asesiad o'r Farchnad Dai Leol](#) i ddeall yn llawn yr anghenion tai presennol ac yn y dyfodol yn yr ardal a ddefnyddir i lunio ein Strategaeth Dai leol newydd, a fydd yn cael ei chynhyrchu yn 2023/24.
- Dechrau cyflwyno ein [Strategaeth Tai Gwag newydd](#), a daeth â 225 o eiddo gwag yn ôl i ddefnydd.
- Cefnogi gosod 1,349 o fesurau effeithlonrwydd ynni mewn tai cymdeithasol a phreifat trwy ystod o grantiau.
- Gweithredu fel awdurdod arweiniol ar gyfer y cynllun Grant Cartrefi Gwag Cenedlaethol, a lansiwyd ar 23 Ionawr, gyda 143 o geisiadau yn cael eu gwneud yn RhCT.
- Cefnogi cyflwyno 29 o gynlluniau tai newydd drwy'r Grant Tai Cymdeithasol, gan gynnwys 22 gan ddefnyddio dulliau adeiladu modern o adeiladau newydd.
- Rhoi'r [Cynllun Ailgartrefu Cyflym](#) ar waith ar gyfer ailgartrefu pobl sydd wedi profi digartrefedd, gan leihau neu ddileu'r angen am lety dros dro lle bo modd.

Dywedon ni y byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid i ddarparu cymorth cyflogaeth ac rydyn ni wedi

- Cefnogi 976 o bobl o bob oed i gael gwaith trwy ein rhaglenni cymorth cyflogaeth, gyda 641 yn ennill cymwysterau galwedigaethol.
- Cyflwyno cyrsiau sgiliau hanfodol, rhaglenni ymgysylltu dysgu fel teulu a chyfleoedd dysgu anffurfiol i gefnogi pobl i ddatblygu eu sgiliau, hyder a lles, gyda 1,675 o bobl yn cwblhau cyrsiau addysg oedolion achrededig, a 148 arall yn gorffen cyrsiau eraill.

Dywedon ni y byddwn ni'n cynnig cymorth penodol i helpu pobl sy'n wynebu rhwystrau i waith i ddod o hyd i waith, gan gynnwys cyfleoedd o fewn y Cyngor, ac rydyn ni wedi

- Cyflogi 20 o raddedigion newydd a 45 o brentisiaid newydd ar draws amrywiaeth o wasanaethau'r Cyngor.
- Cyflwyno'r rhaglen 'Llysgennad' i godi proffil gyrfaedd gofal cymdeithasol gydag ysgolion.
- Cefnogi 156 o bobl ag anableddau neu gyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio ar y rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy.
- Cefnogi pobl ifainc sy'n gadael gofal i ddatblygu eu sgiliau a'u cyflogadwyedd trwy hyfforddiant 'Camu i'r Cyfeiriad Cywir', 'Gofal i Weithio' a [Gwasanaeth Care2Customer](#).
- Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu atgyfeiriadau i'n rhaglenni cymorth cyflogaeth, a darparu cymorth i grwpiau penodol gan gynnwys ffoaduriaid o Wcrain a myfyrwyr tramor.

Doedd dim cymaint o gynnydd ag yr oedden ni wedi'i gynllunio wrth

- Gwblhau Strategaeth Tai Lleol newydd RhCT, a fydd nawr yn cael ei chyflwyno i'w chymeradwyo yn gynnar yn 2024 gan y bydd hyn yn dilyn ymlaen o'r Cynllun Corfforaethol newydd.
- Cyflawni cynlluniau ffyrdd newydd, gan na chymeradwyodd adolygiad ffyrdd Llywodraeth Cymru brosiectau ym Mhorth Gogledd Cwm Cynon a ffordd osgoi Llanharan.
- Cynyddu darpariaeth parcio a theithio Porth, fel cais am arian grant.

- Cynyddu lefelau presenoldeb yn ein hysgolion, sy'n dal yn rhy isel, yn enwedig ar gyfer disgyblion uwchradd a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, er bod Estyn yn cydnabod y gwaith cadarnhaol sydd eisoes ar waith i gefnogi presenoldeb a lles.

Mae ein gwaith o fewn blaenoriaeth **FFYNIANT** yn cael ei oruchwyllo gan y Cabinet, Pwyllgorau Craffu perthnasol a, lle bo'n briodol, [Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd](#), [Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg](#), [Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg](#) a (*ac o fis Mai 2023, BGC Cwm Taf Morgannwg*). Mae rhai o'r gwasanaethau sy'n cyflwyno'r Flaenoriaeth yma hefyd wedi'u harolygu gan Archwilwyr annibynnol hy Archwilio Cymru ac Estyn.

Mae modd darganfod rhagor am eu canfyddiadau ar ein [gwefan](#).

Rhai ffyrdd mae ein blaenoriaeth **FFYNIANT** yn [cyfrannu](#) i'r 7 Nod Llesiant Cenedlaethol.



Ein Hasesiad o Swyddogaethau Corfforaethol

ADRAN 4

Ein Hasesiad o Swyddogaethau Corfforaethol

Mae ein hasesiad o'n swyddogaethau corfforaethol yn ystyried gwaith 'Canolfan Gorfforaethol' y Cyngor. Mae'r 'Ganolfan Gorfforaethol' yn cynnwys y pedwar maes gwaith corfforaethol neu drawsbynciol ar ddeg sy'n sail i bopeth a wnawn, gweler isod. Mae'r meysydd gwaith hyn yn cefnogi gosod cyfeiriad strategol y Cyngor, darparu gwasanaethau a blaenoriaethau'r Cyngor ac yn galluogi'r Cyngor i fodloni nifer o ofynion statudol. Asesir cyflawniad pob un o'r pedwar maes ar ddeg hyn yn rhan o drefniadau Rheoli Cyflawniad y Cyngor ac, yn yr un modd â'r adrodd ar wasanaethau a blaenoriaethau, caiff pob swyddogaeth ei fonitro a'i graffu fel rhan o Gylch Gorchwyl y pwyllgorau perthnasol.

Eleni, am y tro cyntaf rydyn ni hefyd wedi cynnwys Diogelu Corfforaethol yn swyddogaeth gorfforaethol. Mae'r Cyngor yn nodi'n glir bod diogelu yn fater i bawb, waeth p'un a ydyn nhw'n gweithio i'r Cyngor neu ar ei ran. Mae'r trefniadau Diogelu Corfforaethol, gan gynnwys Polisi Diogelu'r Cyngor yn cael eu hadolygu'n barhaus i sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac i gryfhau'r dull o 'Cadw Pobl yn Ddiogel', yn enwedig ein plant, pobl ifainc ac oedolion mewn perygl a hefyd i adlewyrchu'r materion newydd a'r rhai sy'n dod i'r amlwg.

Mae gan y Cyngor ethos cryf o hunanymwybyddiaeth gyda diwylliant o her adeiladol ac uchelgais. Mae'r Cyngor a'i wasanaethau a'i ganolfan gorfforaethol yn ymdrechu'n barhaus i wella a gwneud y defnydd gorau a mwyaf effeithlon o adnoddau. Rydyn ni'n deall o'r gwaith yma fod cyflawniad ein Canolfan Gorfforaethol yn gyffredinol gryf. Ceir tystiolaeth o hyn hefyd mewn [adroddiadau rheoleiddio annibynnol](#). Fodd bynnag, rydyn ni hefyd yn gwybod bod gennym fwy i'w wneud, er enghraifft, ymateb i'r pwysau ariannol a wynebwn, gwneud defnydd gwell a mwy effeithlon o wybodaeth a data sy'n dangos i ba raddau y mae'r gwasanaethau a ddarparwn fel Cyngor ac mewn partneriaeth ag eraill gwneud gwahaniaeth i fywydau'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn Rhondda Cynon Taf.

Mae'r meysydd gwaith corfforaethol/trawsbynciol yma hefyd yn cynnwys saith gweithgaredd craidd "sy'n gyffredin i lywodraethu cyrff cyhoeddus yn gorfforaethol..... yn debygol o sicrhau'r math o newid sydd ei angen yn fwyaf effeithiol" *fel y nodir yn y [Canllaw Craidd](#)* ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Am y rheswm yma, mae crynodeb byr o'n gwaith mewn perthynas â'r gweithgareddau craidd hyn yng nghyd-destun y canllawiau craidd wedi'i nodi isod.

Cynllunio Corfforaethol

Ein trefniadau cynllunio corfforaethol yw'r mecanwaith ar gyfer gosod ein Hamcanion Llesiant. Mae'r blaenoriaethau sydd yn ein cynllun [Gwneud Gwahaniaeth](#) presennol wedi gwasanaethu fel ein Hamcanion Llesiant ac wedi gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer holl strategaethau/polisiau'r Cyngor a gosod cyllideb ac ati. Mae'r dull yma'n cryfhau ymhellach wrth i ni ddatblygu ein Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2024 a datblygu'r broses o integreiddio â'r Amcanion Llesiant â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg. *Ceir rhagor o wybodaeth yn Adran 1, [Cynllunio Strategol a Dull Gweithredu](#).*

Cynllunio Ariannol

Mae gan y Cyngor hanes da o ariannu blaenoriaethau'r Cyngor. Ceir un enghraifft o'r dyraniad clir hwn o fuddsoddiad mewn adroddiad i'r [Cabinet ym mis Medi 2022](#), sy'n manylu ar ariannu buddsoddiad pellach ym mlaenoriaethau'r Cyngor, y tu hwnt i'r rhaglen buddsoddi cyfalaf. Mae'r dull yma hefyd wedi'i ymgorffori yn ein hadroddiadau perfformiad chwarterol i'r Cabinet, [Chwarter 4 at ddibenion enghreifftiol](#), ac sy'n nodi'r cynnydd yn ein blaenoriaethau buddsoddi ar gyfer POBL, LLEOEDD a FFYNIANT.

Yn ei Asesiad Sicrwydd a Risg diweddaraf, fel yr adroddwyd i'r [Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Rhagfyr 2022](#), mae ein Rheoleiddiwr annibynnol, Archwilio Cymru yn nodi *'mae'r Cyngor bellach yn wynebu pwysau ariannol sylweddol, ond mae'n parhau i fod mewn sefyllfa dda i ymateb i'r rhain'*. Yn hyn o beth, roedd y Cyngor yn wynebu bwlch cyllidebol o £38 miliwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, y diffyg cyllid mwyaf a wynebodd erioed. Trwy raglen waith â ffocws sy'n cynnwys pob maes gwasanaeth, cafodd mesurau lleihau'r gyllideb eu nodi a'u rhoi ar waith, gan alluogi'r Cyngor i gyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer y flwyddyn gyfredol.

Mae'r dyraniad cyllidebol tymor byr a chwtog i Lywodraeth Leol yn her sylweddol i gynllunio hirdymor ond mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddefnyddio'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy, yn enwedig o ran amlygrwydd cymryd camau ataliol ar draws ein gwasanaethau a sicrhau'r gwerth mwyaf posibl o'n gwaith gyda phartneriaid. *Ceir rhagor o wybodaeth yn Adran 3 [Cyllid, Cyflawniad a Rheoli Risg](#).*

Rheoli Cyflawniad

Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn nodi sut mae blaenoriaethau/amcanion Llesiant y Cyngor yn cyfrannu at y saith Nod Llesiant cenedlaethol. Mae'r trefniadau Rheoli Cyflawniad hefyd yn ymgorffori cyflwyno'r egwyddorion Datblygu Cynaliadwy yn y prosesau hunanwerthuso, cynllunio, perfformiad yn ystod y flwyddyn a diwedd y flwyddyn a phrosesau adrodd am risgiau strategol. Mae angen inni wneud rhagor a gwell defnydd o ystod o ddata sefydliadol, gwybodaeth a gallu digidol i gryfhau'r broses o wneud penderfyniadau. Rydyn ni hefyd yn gwybod bod angen i ni barhau â'n gwaith i gryfhau gweithrediad yr egwyddorion Datblygu Cynaliadwy fel eu bod yn gyson ar draws holl wasanaethau'r Cyngor ac yn integreiddio â Chynllun Llesiant Cwm Taf Morgannwg yn dilyn ei fabwysiadu ym mis Mai 2023. *Ceir rhagor o wybodaeth yn [Adran 6](#) – Nodau Datblygu Cynaliadwy a Llesiant.*

Rheoli Risg

Mae'r Cyngor yn nodi'r risgiau hirdymor a fydd yn effeithio ar y modd y darperir ein gwasanaethau, a thrigolion a chymunedau Rhondda Cynon Taf yn ogystal â'r rhai tymor byrrach. Mae ein hymagwedd wedi'i nodi yn ein Strategaeth Rheoli Risg. Mae'r risgiau allweddol i gyflawni ein Blaenoriaethau/Amcanion Llesiant wedi'u cynnwys yng Nghofrestr Risg Strategol y Cyngor gyda sgorau risg, rheolaethau a chymau gweithredu cysylltiedig. Mae'r cynnydd o ran gweithredu rheolaethau a chymau gweithredu a fydd yn rheoli'r risgiau hyn yn cael eu hadrodd yn rhan o'n hadroddiadau perfformiad yn ystod/diwedd y flwyddyn a'r [Datganiad Llywodraethu Blynyddol](#) fel rhan o'n [Datganiad Cyfrifon](#). Gellir dod o hyd i'n diweddariad Risg Strategol diwedd blwyddyn 2022/23 [yma](#) at ddibenion enghreifftiol. *Ceir rhagor o wybodaeth yn Adran 3 - [Cyllid, Cyflawniad a Rheoli Risg](#).*

Cynllunio'r Gweithlu

Mae trefniadau cynllunio gweithlu'r Cyngor yn helpu i gynnal gweithlu sydd wedi'i gefnogi a'i hyfforddi'n dda gyda'r sgiliau cywir i gyflawni Blaenoriaethau/Amcanion Llesiant presennol y Cyngor a sicrhau bod gydag ein staff yr adnoddau, y sgiliau a'r capasiti i barhau i wneud y gorau o gyfleoedd a goresgyn heriau'r dyfodol. Cymeradwywyd Cynllun Gweithlu presennol y Cyngor 2023-28 gan [y Cabinet ym mis Ionawr 2023](#). Er y gallwn ddangos cynnydd cadarnhaol, mae angen i ni ymgorffori'r egwyddorion Datblygu Cynaliadwy sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithlu ar draws y Cyngor. Bydd hyn yn cael ei gryfhau wrth i staff a'u rheolwyr ystyried pa hyfforddiant a datblygiad sydd eu hangen arnynt i'w galluogi i gyflawni Blaenoriaethau/Amcanion Llesiant y Cyngor fel rhan o'u hadolygiadau perfformiad unigol blyneddol sydd wedi'u hailsefydlu o fis Ebrill 2023. *Ceir rhagor o wybodaeth yn Adran 4 [Adnoddau Dynol/Cynllunio Gweithlu](#).*

Asedau

Mae [Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol](#) cyfredol y Cyngor ar gyfer 2018-23 yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Yn y cyfamser, rydym yn parhau i wneud gwell defnydd o'n hasedau ffisegol i ddiwallu anghenion sefydliad sy'n newid wrth i ni ymateb i anghenion ein trigolion a'n cymunedau. Mae hyn yn cynnwys rhoi strategaeth Swyddfeydd ar y Cyd newydd ar waith i drawsnewid ein mannau gwaith a chefnogi adfywio canol ein trefi. Rydym hefyd yn parhau â'n gwaith i ddatgarboneiddio ein defnydd o ynni, ein hystâd a'n fflyd drwy ein system [Cynllun Datgarboneiddio](#) newydd a gymeradwywyd gan [Is-bwyllgor y Cabinet ar Newid yn yr Hinsawdd](#) ym mis Rhagfyr 2022. Wrth i ni gyflawni'r newidiadau hyn, rydym yn gwybod bod angen i ni barhau i roi'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy wrth wraidd ein cynlluniau Rheoli Asedau yn y dyfodol. Yn ehangach, rydym hefyd yn datblygu defnydd cymunedol o'n hysgolion ac yn parhau i sicrhau bod tir ac adeiladau ar gael ac yn gynaliadwy i'w defnyddio gan y gymuned trwy Drosgrwyddo Asedau Cymunedol. *Ceir rhagor o wybodaeth yn Adran 5 [Rheoli Asedau](#).*

Caffael

Mae'r Cyngor yn cryfhau ei ymagwedd at Gaffael Cynaliadwy drwy ei [Strategaeth Comisiynu, Caffael sy'n Gymdeithasol Gyfrifol a Rheoli Contractau 2021-24](#). Rydym hefyd yn gweithio i wneud y mwyaf o'n hymagwedd at Werth Cymdeithasol yn ein contractau, y cytunwyd arnynt yn 2022, fel bod manteision Llesiant Economaidd, Cymdeithasol, Amgylcheddol a Diwylliannol hefyd i'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu, wrth sicrhau gwerth am arian. Mae'r gwaith yma yn ei gamau cynnar ac yn cael ei fonitro'n agos i sicrhau bod y trefniadau newydd yn addas i'r diben. Mae manteision amgylcheddol ein contractau hefyd yn cael sylw ehangach drwy'r camau i gyfrannu at leihau ôl troed carbon y Cyngor drwy'r nwyddau a'r gwasanaethau rydym yn eu caffael. *Ceir rhagor o wybodaeth yn Adran 7 [Caffael a Chomisiynu](#).*

Ceir crynodeb o bob un o'r meysydd gwaith trawsbynciol yn y dogfennau isod.

Swyddogaethau

Corfforaethol/Trawsbynciol

1. [Cynllunio ac Ymagwedd strategol](#)
2. [Llywodraethu a Chraffu](#)
3. [Cyflawniad Cyllidol a Rheoli Risg](#)
4. [Adnoddau Dynol/Cynllunio Gweithlu](#)
5. [Rheoli Asedau](#)
6. TGCh a Gwasanaethau Digidol
7. Caffael a Chomisiynu
8. Partneriaethau
9. [Cynnwys, Ymgysylltu ac Adborth gan Gwsmeriaid](#)
10. [Y Gymraeg](#)
11. [Cydraddoldeb a Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol](#)
12. [Adborth Rheoleiddwyr](#)
13. [Sero-net](#)
14. [Diogelu Corfforaethol - Newydd](#)

Gweithgareddau Craidd

1. Cynllunio Corfforaethol
2. Cynllunio Ariannol
3. Rheoli Cyflawniad
4. Rheoli Risg
5. Cynllunio'r Gweithlu
6. Asedau
7. Caffael

Mae cyflawniad pob un o'r pedwar maes ar ddeg yma'n cael eu hasesu a'u craffu i sicrhau eu bod nhw'n cefnogi darparu gwasanaethau a blaenoriaethau'r Cyngor a galluogi'r Cyngor i fodloni gofynion statudol perthnasol. Mae themâu sy'n deillio o'r Hunan Arfarniadau Gwasanaeth yn 2022 hefyd wedi'u hystyried yng nghyd-destun yr asesiad o'r pedwar ar ddeg o swyddogaethau corfforaethol unigol ac wedi'u cynnwys yn elfennau Corfforaethol a Thrawsbynciol yr asesiad hwn.



Yr Hunanwerthusiad o'n Gwasanaethau

ADRAN 5

Hunanwerthusiad o'n Gwasanaethau

Mae ein Hunanwerthusiad o'n Gwasanaethau blynyddol wedi bod ar waith ers 2016. Wrth ysgrifennu'r Hunanwerthusiad, mae angen gonestrwydd a hunanymwybyddiaeth i ymdrechu'n barhaus am ragoriaeth o fewn yr adnoddau sydd gennym ni.

Mae'r SSE yn gofyn i wasanaethau fod yn glir ynghylch

1. sut maen nhw'n cyflawni
2. tystiolaeth am hyn, a
3. nodi beth mae modd iddyn nhw ei wneud i wella.

Mae'r broses yn galluogi gwasanaethau i adlewyrchu a gwerthuso eu cyflawniad gan nodi eu cryfderau, blaenoriaethau a meysydd i'w gwella sydd yn eu tro yn llywio Cynlluniau Darparu Gwasanaeth blynyddol a hefyd [Cynlluniau Blaenoriaeth y Cyngor](#).

Mae'r Hunanwerthusiad hefyd yn

- helpu Aelodau etholedig i gefnogi, herio a chraffu ar gyflawniad, cynnydd a chynllunio.
- cynorthwyo gwasanaethau i ddarparu tystiolaeth ar gyfer archwilio neu arolygu a chyflawni gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol.
- yn helpu gwasanaethau i wneud gwell penderfyniadau, rheoli risgiau a darparu adborth mewn perthynas â'r angen am gymorth corfforaethol a chwmpas y cymorth hwnnw.
- dangos gwerth am arian, y potensial ar gyfer newid mewn gwasanaeth, gwariant neu arbedion effeithlonrwydd a nodi effaith darpariaeth gwasanaeth newydd neu ddiwygiedig.
- galluogi gwasanaethau corfforaethol i nodi a blaenoriaethu anghenion cymorth gwasanaeth.
- darparu mecanwaith/gwybodaeth ar gyfer monitro 'corfforaethol' a gwasanaethau 'trawsbynciol' gyda'r wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw i lunio cynlluniau gweithredu strategol ac adroddiadau statudol ar gyfer y Cyngor, e.e. *Newid yn yr Hinsawdd; [Safonau'r Gymraeg](#), [Cydraddoldebau](#), [Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol](#) a [Dyletswydd Bioamrywiaeth](#) sy'n effeithio ar ein hadroddiad bob 3 blynedd i Lywodraeth Cymru a'r cynllun gweithredu.

Mae'r model Hunanwerthuso yn cael ei adnewyddu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn ystyried adborth gan wasanaethau a'i fod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn addas i'r diben. Dros y blynyddoedd mae'r SSE wedi cael ei ddatblygu fel bod gwasanaethau'n gallu darparu gwybodaeth am yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy drwy'r pum Ffordd o Weithio a themâu trawsbynciol eraill sy'n llywio adroddiadau statudol, fel y rhai a nodir uchod*. Mae'r [Model Hunanwerthusiad 2021, y canllaw](#) a'r [meini prawf dyfarniad](#) a ddaeth yn weithredol yn ystod hydref 2022 ar gael.

Cafodd y [gyfres o bump ar hugain o hunanwerthusiadau](#) eu cwblhau gan wasanaethau ar ddiwedd 2021. Cafodd bob gwerthusiad a gwblhawyd eu hadolygu gan yr Aelod Cabinet priodol, eu cymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Cyfadran. Maen nhw hefyd wedi bod yn destun her gan y Prif Weithredwr mewn cyfarfodydd gyda phenaethiaid gwasanaethau rhwng mis Tachwedd 2022 ac Ionawr 2023. Eleni, cynhaliwyd y cyfarfodydd her yng nghanol y paratodau ar gyfer y potensial ar gyfer y toriadau mwyaf mewn Llywodraeth Leol ers dros ddegawd. Er gwaethaf yr heriau a'r

ansicrwydd, parhaodd y broses SSE i gael ei chynnal mewn ysbryd o fod yn agored ac yn dryloyw. Cafodd yr agwedd yma'i atgyfnerthu gan y Prif Weithredwr newydd yn ei sesiynau Her a Chymorth.

Mae'r sesiynau Her a Chymorth hyn yn parhau i gael eu hystyried yn rhan annatod a gwerthfawr o'r Fframwaith Rheoli Cyflawniad ac yn gyfle cadarnhaol i herio cyflawniad, archwilio materion a chyfleoedd gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am faterion trawsbynciol i'r Cyngor.


Cafodd cryfderau a themâu allweddol sy'n deillio o'r SSEs eu hystyried gan yr Uwch Dîm Rheoli ar 29 Mawrth 2023. Mae llawer o'r tair thema ar ddeg hyn hefyd yn ymddangos yn y *naw maes sy'n deillio o'r Hunanasesiad ehangach a gynhaliwyd yn 2021/22, a ystyriwyd yn [Adran 1](#). Lle bo'n berthnasol, mae'r themâu hyn hefyd wedi'u defnyddio i herio a llywio meysydd eraill yn yr Hunanasesiad hwn, er enghraifft:

1. *** Gweithlu** – thema gref a chyson yn dod i'r amlwg sy'n effeithio ar bron bob maes gwasanaeth. Roedd heriau gyda recriwtio a chadw staff ac i raddau llai cynllunio ar gyfer olyniaeth yn amlwg iawn. *Gweler hefyd AD/Cynllunio Gwaith yn yr adran Swyddogaethau Corfforaethol.*
2. **Galw a Chymhlethdod** – mae llawer o feysydd gwasanaeth yn gweld cynnydd sylweddol yn y galw a chymhlethdod anghenion. Dyw'r gallu i ymateb neu newid gwasanaethau ddim bob amser yn gymesur ag angen.
3. **Adfer ar ôl y Pandemig** – tipyn o ffordd i fynd eto gydag adferiad o'r pandemig o ran y defnydd o wasanaethau yn dychwelyd i lefelau cyn y pandemig ac effaith ar gymunedau.
4. **Defnydd Effeithlon o Asedau** – angen datblygu ein cynlluniau strategol tymor canolig ymhellach ar gyfer defnydd mwy effeithlon o'n hasedau – adeiladau, fflyd, TGCh. *Gweler hefyd yr adran Rheoli Asedau a TGCh a Digidol mewn Swyddogaethau Corfforaethol.*
5. ***Blaenoriaethau Buddsoddi** – mae rhaglenni buddsoddi cyfalaf y Cyngor yn gwneud gwahaniaeth sylweddol ac mae angen parhau i sicrhau effaith tymor hwy. *Gweler hefyd yr adran Cyllid, Risg a Pherfformiad mewn Swyddogaethau Corfforaethol.*
6. **Digidol** – disgwyliadau cyson ac uchel ynghylch TGCh a'r awydd i archwilio cyfleoedd i foderneiddio drwy dechnoleg ddigidol. *Gweler hefyd yr adran TGCh a Digidol yn yr adran Swyddogaethau Corfforaethol.*
7. **Rheoli Cyflawniad** – angen gwneud gwell defnydd o ddata presennol fel gwybodaeth y gellir ei gweithredu a pharhau i gryfhau sut rydym yn mesur effaith a chanlyniad. *Gweler hefyd yr adran Cyllid, Risg a Chyflawniad mewn Swyddogaethau Corfforaethol.*
8. **Arferion Gwaith** – cydnabod bod arferion gwaith a threfniadau ar draws y Cyngor wedi newid yn sylweddol yn dilyn y pandemig.
9. **Cymorth Busnes** – cydnabyddiaeth gynyddol o werth cymorth busnes a rolau gweinyddol.
10. **Cydraddoldeb a Chynhwysiant** – angen cryfhau a chyfleu ein diwylliant sefydliadol a'n gwerthoedd ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a gosod disgwyliadau clir ar gyfer staff a gwasanaethau. *Gweler hefyd yr adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn yr adran Swyddogaethau Corfforaethol.*
11. **Partneriaethau** – rydym yn ymwneud â llawer o drefniadau partneriaeth lleol, rhanbarthol a chenedlaethol amrywiol a chymhleth, gan gefnogi, cynnal ac arwain llawer ohonynt. Hefyd disgwyliad cynyddol bod dyletswyddau a chyllid grant yn cael eu cyflawni drwy'r trefniadau hyn. *Gweler hefyd yr Adran Partneriaeth yn yr adran Swyddogaethau Corfforaethol.*

12. ***Llety ar gyfer Pobl sy'n Agored i Niwed a Phwysau'r Farchnad Dai** – diwallu anghenion oedolion a phlant sy'n agored i niwed ac ymateb i bwysau'r farchnad dai leol.
13. **Cyfathrebu a Chyfranogiad** – mae tystiolaeth o ymgysylltu ac ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth ar draws y Cyngor ond mae angen cryfhau cyfranogiad *ystyrlon* gan breswylwyr mewn gwneud penderfyniadau a datblygu/ailgynllunio gwasanaethau. *Gweler hefyd yr Adran Cynnwys, Ymgysylltu ac Adborth Cwsmeriaid yn yr adran Swyddogaethau Corfforaethol.*

Unwaith y cwblhawyd yr heriau SSE, roedd yr holl Werthusiadau ar gael ar fewnrwyd y Cyngor i gyfeirio atynt yn fewnol a'u defnyddio. Defnyddir y themâu sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys y rhai uchod, i lywio datblygiad gwasanaethau, prosesau corfforaethol a phrosesau eraill a newidiadau posibl i'r trefniadau SSE yn 2023.

Ar lefel wasanaeth, roedd yr wybodaeth yn yr hunanwerthusiadau, a'r blaenoriaethau gwasanaeth sy'n dod i'r amlwg, yn llywio'r Cynllun Cyflawni ar gyfer pob gwasanaeth ar gyfer 2023/24. Mae'r Cynlluniau Cyflawni yn destun monitro o fewn y gwasanaethau. Mae camau gweithredu perthnasol hefyd wedi'u cynnwys yng nghynlluniau blaenoriaeth y Cyngor, sy'n cael eu monitro a'u hadrodd yn yr [Adroddiadau Cyflawniad chwarterol i'r Cabinet](#) ac wedi hynny i wahanol bwyllgorau craffu. Cyfeirir at y Cynlluniau Blaenoriaeth yn [Adran 1](#) uchod.



**Sut rydyn ni'n
cymhwyso'r egwyddor
datblygu cynaliadwy
ac yn cyfrannu at
y saith nod llesiant
cenedlaethol**

ADRAN 6

Sut rydyn ni'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol

Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor a phob corff cyhoeddus osod amcanion llesiant sy'n gwneud y mwyaf o'u cyfraniad at gyflawni'r saith nod llesiant cenedlaethol. Wrth wneud hynny, disgwylir i'r Cyngor gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion llesiant hynny. Amcanion llesiant Cyngor yw'r tair blaenoriaeth sydd wedi'u hamlinellu yng [Nghynllun Corfforaethol 2020-2024](#):

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol inni gymhwyso ystyr Datblygu Cynaliadwy *ac ein bod ni'n gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain er mwyn gwella llesiant Economaidd, Cymdeithasol, Amgylcheddol a Diwylliannol Cymru.*

Er mwyn dangos ein bod yn cymhwyso'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy (DC), rhaid i Gyrff Cyhoeddus gymhwyso 5 Ffordd o Weithio a chyfrannu at saith nod llesiant cenedlaethol. Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi'r [saith gweithgaredd craidd](#) sydd fwyaf tebygol o sicrhau newid sefydliadol, a ystyrir yn [Adran 4](#) o'r Asesiad hwn. Dull y Cyngor mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel y cytunwyd gan y Cabinet yn 2016 yw cynnwys ei holl ofynion yn rhan o waith y Cyngor. Mae'r saith nod cenedlaethol, ynghyd â'r pum Ffordd o Weithio, wedi'u hymgorffori mewn trefniadau rheoli perfformiad gan gynnwys y cynlluniau gweithredu manwl sy'n parhau i gyflawni tair blaenoriaeth y Cyngor. Mae cynnydd wedi'i grynhoi yn [Adroddiadau Cyflawniad Corfforaethol](#) (CPRs) y flwyddyn flaenorol, ein [Hadroddiadau Cyflawniad chwarterol](#) hirsefydlog a'n Hasesiad o gynnydd 2022/23 a ddisgrifir yn Adran 3.

Er gwaethaf yr ymyrraeth i'n cynnydd wrth weithredu'r egwyddor DC o ganlyniad i ffocws ar ymateb ac adferiad i'r pandemig, gallwn dynnu sylw at lawer o enghreifftiau achos o sut rydym yn gweithredu'r Ddeddf ac yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol yn ein Cynlluniau Blaenoriaeth sy'n cyflawni ein Cynllun Corfforaethol. Mae detholiad o'n cyfraniadau i'r nodau yn y Cynllun Corfforaethol wedi'u crynhoi at ddibenion enghreifftiol yn Atodiad A. Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod gennym fwy i'w wneud i atgyfnerthu'r ymagwedd hon ar draws busnes y Cyngor.

Mae cymhwyso'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy (DC) bellach yn cael ei fwydo'n ôl yn rheolaidd fel rhan o ganfyddiadau archwiliadau lleol yn holl adroddiadau Archwilio Cymru i Awdurdodau Lleol yn rhan o ofynion rheoliadol y Ddeddf. Mae'r gofyniad archwilio hwn mewn perthynas â'r [Egwyddor DC](#), ymhlith pethau eraill yn golygu ystyried sut rydym yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio, hynny yw Cynnwys; Cydweithio; Integreiddio; Meddwl yn y tymor hir ac atal pethau rhag digwydd neu waethygu. Nid yw'r gofyniad archwilio hwn mewn perthynas â'r Ddeddf yn berthnasol i arolygiadau Arolygiaeth Gofal Cymru nac ESTYN.

Mae adroddiadau Archwilio Cymru yn cael eu hystyried gan Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu a Llywodraethu ac Archwilio fel mater o drefn. Ystyriwyd yr enghreifftiau lleol diweddaraf gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ym mis Hydref 2022 mewn perthynas â Rheoli Asedau a'r Gweithlu a oedd ill dau yn cynnwys argymhellion mewn perthynas â chroesawu'n llawn yr egwyddor Datblygu Cynaliadwy, hynny yw diwallu anghenion heddiw heb gynnwys gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion, trwy gymhwyso pum ffordd o weithio.

Ym mis Ebrill 2023, roeddem yn falch o ymgysylltu â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol newydd yn rhan o'i sgysiau cynnar â phob un o'r 48 Corff Cyhoeddus i weld sut y gall ei swyddfa gefnogi'r Cyrff Cyhoeddus yn well i weithredu gofynion amrywiol a niferus y Ddeddf. Mae'r canlyniad a'r ymateb i'r sgysiau hyn newydd ddod i'r amlwg drwy ei ddull newydd a nodir yn y strategaeth newydd '[Cymru Can](#)' sy'n cynnwys rhagor o gyngor a chymorth i gyrff cyhoeddus. Yn y cyfamser, rydym yn parhau i gymryd ein profiad, ein gwybodaeth a'n dysgu oddi wrth rwydweithiau perthnasol i gryfhau ein dulliau gweithredu ac ymgorffori'r dulliau hyn mewn agweddau ar ein gwaith. Mae enghreifftiau i'w gweld drwy gydol yr Hunanasesiad hwn ac yn arbennig, y modd y cyflawnir Blaenoriaethau'r Cyngor. Rydym yn parhau â'n gwaith i ymgorffori ein gweithrediad o [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)](#) a Datblygu cynaliadwy yn ein trefniadau Cynllunio Corfforaethol newydd a fydd ar waith o 2024.

ATODIAD

A

Cyfrannu at y Nodau Lles

Atodiad A

Rhai o'r ffyrdd rydyn ni'n cyfrannu at y 7 Nod Llesiant Cenedlaethol

Nod Llesiant Cenedlaethol	POBL Sicrhau bod pobl yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus	LLEOEDD Ble mae pobl yn falch o gael byw, gweithio a chwarae ynddyn nhw	FFYNIANT Creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuriaidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu
Ffyniannus	- Cefnogi Plant a Phobl Ifainc drwy roi dechrau gwych iddyn nhw mewn bywyd trwy ein rhaglen Teuluoedd Cydnerth. - Ailddatblygu eiddo gwag yn unol â strategaethau adfywio i ddod ag adeiladau amlwg yng nghanol y dref yn ôl i ddefnydd a gwella ein cynnig tai, e.e. Datblygiad Big Shed yn Nhonypandy. - Comisiynu Catalydd Cymunedol i gefnogi pobl a phartneriaid lleol i ddatblygu mentrau bach a all ddarparu dewis go iawn a chynyddu nifer ac ystod y dewisiadau gofal cartref a chymorth.	- Cadw pobl a thraffig i symud ar ffyrdd a phalmentydd sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda gan gynnwys y gwaith rydyn ni'n ei wneud i gadw ein ffyrdd ar agor yn ystod misoedd y gaeaf. - Darparu cyfleusterau busnes newydd a fydd yn cefnogi dyfodol economaidd hirdymor y rhanbarth. - Bwrw ymlaen â chynlluniau a fydd o fudd i gymunedau nawr ac yn y dyfodol gan gynnwys cynllun deuoli a theithio llesol yr A4119 o Gylchfan Coed-elái i Barc Busnes Llantrisant.	- Cefnogi busnesau i addasu ac arallgyfeirio. - Datblygu cynlluniau creu lleoedd ym Mhontypridd, Porth a Thonypandy a chefnogi amrywiaeth o waith ailddatblygu i adfywio canol ein trefi. - Adeiladu cartrefi newydd a gweithio gyda datblygwyr i - hwyluso adeiladu cartrefi ar safleoedd tir llwyd ble bo'n briodol. - Cefnogi pobl i ddatblygu sgiliau newydd. Darparu ysgolion lle gall plant gyflawni'r gorau y gallan nhw.

Nod Llesiant Cenedlaethol	POBL Sicrhau bod pobl yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus	LLEOEDD Ble mae pobl yn falch o gael byw, gweithio a chwarae ynddyn nhw	FFYNIANT Creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuriaidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu
Cydnherth	- Lleihau aflonyddu ar safleoedd a gwastraff materol gydag amserlenni adeiladu byrrach drwy ddefnyddio dulliau adeiladu modiwlaid wrth adeiladu ein cyfleusterau Gofal Ychwanegol. - Hyrwyddo cynhyrchion mislif y gellir eu hailddefnyddio a rhai cynaliadwy drwy lyfrynau a gweithdai.	- Buddsoddi, gwerthfawrogi a dathlu ein mannau gwyrdd. - Lansio ein tudalen we bioamrywiaeth newydd. - Cynnwys ac ymgysylltu preswylwyr yn ein sgysiau Dewch i Siarad am Flodau Gwyllt a drafft newydd o gynllun gweithredu adfer 'Gweithredu dros Natur'. - Cynyddu mesurau lliniaru llifogydd gan gynnwys gwaith yn Aberdâr ac Ynys-hir.	- Hyrwyddo bioamrywiaeth drwy amddiffyn cynefinoedd presennol lle bo hynny'n bosibl a chreu ardaloedd newydd ar gyfer bywyd gwyllt yn ein hysgolion. - Integreiddio bioamrywiaeth i gynllunio a threfniadau Cynllun Datblygu Lleol.
Iachach	- Helpu pobl i gadw mor iach â phosibl drwy annog rhagor o weithgarwch mewn lleoliad sy'n addas i'r unigolyn e.e gartref, yn ein canolfannau hamdden, yn ein mannau gwyrdd awyr agored ac mewn cyfleusterau cymunedol mewn ysgolion. - Darparu cymorth ail-alluogi a i sicrhau bod ein pobl hŷn, pobl agored i niwed neu'r rhai sydd ag anabledd yn gallu aros yn annibynnol yn eu cymunedau. - Integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i sicrhau nad yw pobl yn treulio mwy o amser yn yr ysbyty nag sydd ei angen.	- Symud ymlaen â safonau Baner Werdd a'u cynnal yn ein parciau i sicrhau eu bod yn darparu noddfa i breswylwyr, yn cyfrannu at well lles corfforol a meddyliol, yn annog ymgysylltu â natur a chwarae ac yn creu cyfleoedd i bobl ddod at ei gilydd. - Parhau i fynd i'r afael â throseddau amgylcheddol a chosbi'r rhai sy'n cyflawni'r troseddau. Ymgysylltu â phreswylwyr ynglŷn â llwybrau teithio llesol gan gynnwys cynlluniau rhwng Pont-y-gwaith a Maerdy, cysylltiadau ag Ystad Ddiwydiannol Trefforest a llwybr cymunedol Pentre'r Eglwys.	- Ehangu nifer y swyddogion ymgysylltu â theuluoedd mewn ysgolion yn dilyn llwyddiant cynllun peilot.pdf oedd yn rhoi cymorth i blant a theuluoedd gyda'u lles ac ymgysylltu ag addysg. - Rhoi cymorth cwnsela gwell i bobl ifainc, gan gynnwys y rhai yr effeithiwyd fwyaf gan bandemig Covid 19. - Dod o hyd i ffyrdd o ddiogelu ansawdd aer a hybu iechyd drwy deithio llesol ac amwynderau lleol wrth gynllunio datblygiadau newydd, gan gynnwys cwblhau astudiaethau i deithio llesol yng nghanol trefi Pontypridd, Porth ac Aberdâr.

Nod Llesiant Cenedlaethol	POBL Sicrhau bod pobl yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus	LLEOEDD Ble mae pobl yn falch o gael byw, gweithio a chwarae ynddyn nhw	FFYNIANT Creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuriaidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu
Mwy Cyfartal	- Sefydlu rhwydwaith bwyd cynaliadwy yn rhan o'n cynllun Lleoedd Bwyd Cynaliadwy i fynd i'r afael â thlodi bwyd yn ein cymunedau. - Darparu cynhyrchion mislif i'n cymunedau trwy Grant Urddas Mislif yn y Gymuned LLC. - Datblygu model diwygiedig ar gyfer Opsiynau Tai i'r rhai sy'n gadael gofal y mae gan y Cyngor ddyletswydd rhianta corfforaethol iddyn nhw, fel bod modd iddyn nhw adael lleoliadau gofal mewn ffordd ddiogel sydd wedi'i chynllunio, sy'n osgoi digartrefedd lle bynnag y bo modd.	Codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb. - Sicrhau bod cymorth cam-drin domestig ar gael i bawb mewn angen gan gynnwys cymorth gan Gynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig arbenigol, un ar gyfer plant a phobl ifainc, un ym maes lechyd ac un arall gyda Tai yn Gyntaf. - Rhoi cymorth gyda chamddefnyddio sylweddau i'r rhai sydd ei angen trwy ragor o waith allgymorth gan Barod a hyrwyddo'r cymorth rydyn ni'n ei ddarparu.	- Darparu dysgu amgen, cynllunio gyrfa a phrofiad gwaith i'r bobl ifainc hynny sy'n ei chael hi'n anodd cymryd rhan mewn dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Darparu cynhyrchion mislif i helpu i fynd i'r afael â thlodi misglwyf ymhlith y merched a menywod yn ein cymunedau. - Benthyca dyfeisiau a wi-fi i blant, pobl ifainc a'r sawl sy'n chwilio am waith i'w helpu i barhau ag addysg a hyfforddiant ar-lein.
Cymunedau Cydlynus	- Helpu pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hirach a'u galluogi i gyfrannu at gymunedau a chryfhau eu perthnasau cymdeithasol. - Cefnogi a hyrwyddo cyfleoedd i wirfoddoli yn ein cymunedau trwy ein Canolfannau Cymunedol. - Cefnogi cymunedau i gael cysylltiadau da trwy ein Rhwydweithiau Cymdogaeth.	Cadw pobl yn ddiogel a'u helpu i deimlo'n ddiogel drwy: - Ymateb i geisiadau cymunedol i weithredu - Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol - Diogelu'r rheini sy'n agored i droseddau carreg drws.	Gwella tai i'n holl drigolion a chreu cymdogaethau dymunol i gymunedau ffynnu.

Nod Llesiant Cenedlaethol	POBL Sicrhau bod pobl yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus	LLEOEDD Ble mae pobl yn falch o gael byw, gweithio a chwarae ynddyn nhw	FFYNIANT Creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuriaidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu
Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu	• Cynyddu cyfleoedd i bobl ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau. • Ymgysylltu â chymunedau ar weithrediad prosiect 'Altered Images' yr NLHF sy'n annog grwpiau cymunedol ac unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau a chysiau ar thema treftadaeth. • Darparu cyfleoedd i bobl ifainc sydd â phrofiad o ofal a'u gofalmwyr/cynhalwyr fynychu cynyrchiadau theatr, mentrau lles a phrofiadau gyda byd natur. • Darparu rhaglen Addysg i Oedolion amrywiol, gan gynnwys hanes lleol a sgiliau Cymraeg sylfaenol i helpu rhieni i gefnogi datblygiad eu plentyn. Mae modd cyrchu'r cysiau wyneb yn wyneb ac ar-lein, gan ddileu rhai rhwystrau i ddysgu a nodwyd.	• a pharatoi i Ronda Cynon Taf gynnal Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn 2024.	• Dathlu diwylliant a hanes yr ardal yn ein theatrau a pharciau a datblygu Parc Rhanbarthol y Cymoedd • Cefnogi ailddatblygiad yr adeilad YMCA a Chanolfan Gelf y Miwni ym Mhontypridd i ddatblygu canolbwynt diwylliannol. • Hyrwyddo RhCT yn gyrchfan i ymwelwyr, gan gynnwys yr Eisteddfod.

Nod Llesiant Cenedlaethol	POBL Sicrhau bod pobl yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus	LLEOEDD Ble mae pobl yn falch o gael byw, gweithio a chwarae ynddyn nhw	FFYNIANT Creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuraidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu
Cyfrifol ar Lefel Fyd-eang	Cymryd rhan lawn yn y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol ar gyfer Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches (UASC).	- Parhau i annog ailgylchu ac ailddefnyddio a gweithredu Gwasanaeth Casglu Gwastraff Gwyrdd newydd. - Symud ymlaen ein cynlluniau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a'i leihau drwy wasanaethau'r Cyngor a'r Fwrdeistref Sirol ac i gyrraedd targedau 2030, gan gynnwys cyhoeddi Strategaeth Wefru Cerbydau Trydan 2021-2030 y Cyngor a Strategaeth Mynd i'r Afael â Newid yn yr Hinsawdd y Cyngor 'RhCT Hinsawdd Ystyriol' (2022-2025).	- Cefnogi Mentrau Masnach Deg. - Datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy fel ffynnon dwym Ffynnon Taf. - Gweithio gyda Chymdeithas Tai Cwm Rhondda i ddatblygu cartref di-garbon gan ddefnyddio pren lleol yn rhan o'r cynllun Skyline.